


# ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL



## GWASANAETHAU CYMRAEG

# 2018 - 2019



DEFNYDDIWCH EICH  
**CYMRAEG**  
USE YOUR  
**WELSH**



NHS  
WALES  
**GIG**  
CYMRU

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board

<b>Crynodeb Gweithredol</b>	<b>1</b>
<b>Rhagair</b>	<b>2</b>
<b>Hunanreoleiddio a Llywodraethu</b>	<b>3</b>
<b>Safonau'r Gymraeg</b>	<b>6</b>
<b><i>Mwy na Geiriau</i></b>	<b>7</b>
<b>Datblygiadau Hyfforddiant y Gymraeg</b>	<b>7</b>
<b>Gwasanaethau Gofal Cychwynnol</b>	<b>11</b>
<b>Y Gwasanaeth Cyfieithu</b>	<b>13</b>
<b>Datblygiadau'r Gwasanaeth a Phrif Gyflawniadau</b>	<b>14</b>
<b>Data Dangosyddion Perfformiad</b>	<b>20</b>
• <b>Asesiad o Effaith Polisi</b>	<b>20</b>
• <b>Gwasanaethau a Ddarperir gan Eraill</b>	<b>22</b>
• <b>Cynllunio'r Gweithlu</b>	<b>23</b>
• <b>Hyfforddiant i Wella Sgiliau Iaith Gymraeg</b>	<b>27</b>
• <b>Recriwtio</b>	<b>29</b>
• <b>Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith</b>	<b>30</b>
• <b>Gwefan</b>	<b>32</b>
• <b>Cwynion</b>	<b>33</b>
<b>Casgliad a Blaen Weledigaeth ar gyfer 2019 - 2020</b>	<b>34</b>

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â dyletswydd statudol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) i ddarparu adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar gydymffurfiaeth â'i Gynllun Iaith Gymraeg. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i wneud cynnydd o ran rhoi ei Gynllun Iaith Gymraeg ar waith, ac mewn llawer o feysydd, mae wedi mynd y tu hwnt i'w ddisgwyliad. Mae ffocws wedi datblygu erbyn hyn hyd at roi Safonau'r Gymraeg ar waith yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r fformat a'r cynnwys sydd yn yr arweiniad a gynhyrchwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ac mae'n rhoi manylion am gydymffurfiaeth â'r dangosyddion perfformiad sy'n rhan o'r meysydd a amlinellir yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd:

- Asesiad o Effaith Polisi
- Gwasanaethau a ddarperir gan eraill
- Cynllunio'r Gweithlu
- Technoleg Gwybodaeth
- Recriwtio
- Sgiliau Iaith
- Hyfforddiant i wella sgiliau iaith yn y Gymraeg
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith
- Cwynion

Mae'n rhoi trosolwg o gynnydd cyffredinol, gan gynnwys cyflawniadau allweddol ac arfer da, ynghyd â meysydd i'w datblygu. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried yr adborth a gafwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dilyn cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol 2017-2018.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu gwaith a wnaed i ddatblygu'r *Strategaeth Sgiliau Dwyieithog*, rhoi *Mwy na Geiriau* ac egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith, sy'n golygu darparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg heb fod angen i'r defnyddiwr gwasanaeth ofyn amdano. Mae'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd Iechyd hefyd yn ymgorffori Strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr. Mae Cynllun Strategol a Rhaglen Waith gysylltiedig ar waith i sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu cyflawni'n gynhwysfawr. Mae hunanlywodraethu a monitro hefyd yn agweddau allweddol ar y gwaith a wnaed eleni sydd wedi arwain at fesurau perfformiad ac atebolrwydd gwell.

Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar adroddiadau blynyddol blaenorol y Bwrdd Iechyd, gan adlewyrchu gwelliannau a chynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

Ebrill 2019

## Rhagair

Mae'r adroddiad hwn, nid yn unig yn adlewyrchu cynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn dangosyddion perfformiad, mae hefyd yn dangos sut rydym wedi cynllunio ein gwasanaethau i fynd i'r afael ag anghenion ein poblogaeth.

## Deall anghenion ein poblogaeth

Mae deall anghenion y boblogaeth yn hanfodol i lywio ein gallu i gynllunio gwasanaethau yng Ngogledd Cymru a'u darparu. Mae'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd, sef 65 y cant, er y gwyddom fod hyn yn llawer uwch mewn rhai ardaloedd yn y sir. Mewn ardaloedd eraill o Ogledd Cymru, mae 57 y cant o drigolion Ynys Môn yn siarad Cymraeg, 27 y cant yng Nghonwy a 25 y cant yn Sir Ddinbych. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint (13.2 y cant) a Wrecsam (12.9 y cant) yn is o'i gymharu, ond mae'r galw am wasanaethau Cymraeg yn amlwg, o gofio'r ardaloedd gweledig sy'n siarad Cymraeg ac sy'n defnyddio gwasanaethau a ddarperir yn nwyrain Gogledd Cymru.

Mae *Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru* yn dangos bod ychydig dros hanner (53 y cant) o siaradwyr Cymraeg yng Ngogledd Cymru yn rhugl yn yr iaith a bod 63 y cant yn ei siarad bob dydd. Yng Ngwynedd, mae 78 y cant o drigolion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn yr iaith ac mae 85 y cant yn ei siarad bob dydd. Mae lefel y Gymraeg a siaredir, yn enwedig yng ngogledd orllewin y rhanbarth, yn dylanwadu ar nifer y bobl sy'n dewis defnyddio gwasanaethau yn Gymraeg. Yng Ngwynedd, mae 37 y cant o bobl yn ceisio defnyddio'r Gymraeg bob tro wrth gysylltu â gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r wybodaeth hon wedi helpu'r Bwrdd Iechyd i nodi'r angen am wasanaethau Cymraeg ac felly mae wedi'n galluogi i gynllunio i fodloni'r galw hwn.

## Gwasanaethau Cymraeg y Bwrdd Iechyd

Mae Tîm Cymraeg y Bwrdd Iechyd yn cynnwys pedwar gwasanaeth sy'n cynorthwyo'r sefydliad i fodloni gofynion deddfwriaethol ac i fynd i'r afael ag anghenion ein cleifion.

1. Cydymffurfio â Deddfwriaeth  
Sicrhau ein bod yn cefnogi'r sefydliad i fodloni ei rwymedigaethau yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, wedi'i hwyluso gan Swyddog Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
2. Hybu ac Ymgysylltu  
Yn unol ag elfennau gweithredol cyflwyno Fframwaith Strategol *Mwy na geiriau*, mae ein Swyddogion Cymraeg yn mynd ati'n rhagweithol i gynnig gwasanaethau ac i ddechrau prosiectau a chynlluniau a fydd yn cynnig gwasanaeth effeithiol i gwsmeriaid.
3. Darpariaeth Hyfforddiant  
Mae ein Tiwtor y Gymraeg a'n Swyddog Cymorth yn sicrhau datblygiad sefydliadol yn unol â'n Strategaeth Sgiliau Dwyieithog ac agenda ehangach y Gymraeg.
4. Gwasanaethau Cyfieithu  
Mae ein huwch gyfieithydd a phum cyfieithydd arall yn sicrhau bod y sefydliad yn gallu cynnig gwybodaeth i gleifion yn eu dewis iaith, ac maent hefyd yn cynnig cyfieithu ar y pryd er mwyn hwyluso dewis iaith mewn lleoliadau clinigol

a chorfforaethol.


## Arolwg Staff BIPBC 2018

Adlewyrchir llwyddiant y rhwydwaith cymorth a amlinellir uchod yng nghanfyddiadau Arolwg Staff GIG Cymru 2018, gan fod sgoriau o ran darparu gwasanaethau yn Gymraeg a diwallu anghenion iaith defnyddwyr gwasanaeth yn uwch o lawer na lefel gyfartalog GIG Cymru. O ran gallu cynnig gwasanaethau yn newis iaith claf, dywedodd 69 y cant o staff eu bod yn gallu cynnig hwn, ac roedd 74 y cant wedi nodi eu bod yn gwybod sut i fanteisio ar gymorth o ran y Gymraeg yn y gweithle. Roedd y ddau ganfyddiad hyn yn uwch na lawer na'r lefel gyfartalog genedlaethol, ac roedd gwelliannau pellach i'w gweld ers arolwg 2016. Fodd bynnag, wrth i ni barhau i ddatblygu agenda'r Gymraeg, bydd y canfyddiadau hyn hefyd yn caniatáu i ni dargedu cymorth lle bo angen.

Felly, mae Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg yn dod â gweithgareddau cynllunio a gweithredol strategol at ei gilydd yn ystod cyfnod adrodd 2017-2018, ac mae'n adlewyrchu gwaith a wneir i fynd i'r afael â'r dangosyddion fel y'i pennwyd gan y Cynllun Iaith Gymraeg a Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## Hunanreoleiddio a Llywodraethu

Mae datblygu strategaeth glir yn ein galluogi i gyflawni ein hamcanion ac mae ein Cynllun Strategol ar gyfer y Gymraeg, wedi'n galluogi i ganolbwyntio trwy ein dimensiynau Newid Ymddygiad, Ymyrraeth Strategol a Llywodraethu a Pherfformiad.



Mae ein rhaglen waith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi'i hadeiladu ar y dimensiynau allweddol hyn ac rydym wedi gweld bod ein gwasanaethau'n mynd o nerth i nerth.

## Atebolrwydd Cyffredinol y Bwrdd

Mae Fforwm Strategol y Gymraeg, sy'n cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, yn sefydlu ein trefniadau llywodraethu mewnol. Mae'r Cylch

Gorchwyl yn llywio ein hymagwedd strategol, ac mae aelodaeth yn cynnwys uwch arweinwyr ac arweinwyr gweithredol sy'n gallu gyrru gofynion yn eu blaen. Mae'r Fforwm yn adrodd wrth Bwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth yn y Bwrdd Iechyd, sy'n Bwyllgor i'r Bwrdd, a chaiff ei gadeirio gan yr Is-gadeirydd. Mae llwybr craffu clir ar waith ynghyd â threfniadau i ddwysáu unrhyw faterion o bwys.

## **Cofrestr Risg Gwasanaethau'r Gymraeg**

Mae'n hanfodol bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod meysydd risg posibl mewn perthynas â'r Gymraeg a bod Cofrestr Risg bwrpasol ar waith. Mae'r risgiau posibl presennol yn cynnwys bodloni anghenion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rhoi egwyddor y Cynnig Rhagweithiol ar waith yn unol â Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru, sef *Mwy na geiriau*, a chyflwyno'r *Strategaeth Sgiliau Dwyieithog*.

Mae'r holl risgiau wedi'u dad-dwysáu yn 2018-2019, ac mae'r gyfradd risg yn gymedrol neu'n ddibwys ar hyn o bryd. Mae rheolyddion wedi'u rhoi ar waith i leddfu unrhyw faterion cymhleth ac i benderfynu ar gamau pellach sydd eu hangen er mwyn cyflawni sgôr risg darged.

Caiff Cofrestr Risg Gwasanaethau Cymraeg ei monitro bob chwarter, ac adroddir arni ddwywaith y flwyddyn i Fforwm Strategol y Gymraeg.

## **Ymgorffori'r Gymraeg i gynllunio a pherfformiad ehangach**

Mae sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys yng nghynlluniau cyffredinol ehangach y sefydliad yn allweddol i gyflawni ein nodau a'n dimensiynau. Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yn ei gwneud yn ofynnol i ni feddwl yn fanylach am y tymor hir, gyda phwyslais ar Gymru sydd â diwylliant llewyrchus ac mae iaith Gymraeg ffyniannus yn un o'i saith nod o ran llesiant. Mae hyn yn ein hysgogi i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a sefydliadau eraill, yn ogystal â'n cyfeirio i fabwysiadu ymagwedd fwy cydgysylltiedig. Fel y cyfryw, mae gofynion iaith Gymraeg wedi'u prif ffrydio yn ein strategaeth ar gyfer y dyfodol, *Byw'n lach*, *Aros yn lach*, ac mae nodau byrdymor ac ymrwymiad wedi'u sefydlu yn ein Cynllun Tair Blynedd. Mae hyn wedi'n galluogi i uno ein gofynion o ran cyflwyno Safonau'r Iaith Gymraeg a *Mwy na geiriau*, yn ogystal â meddu ar ffocws clir ar ddatblygu ein *Strategaeth Sgiliau Dwyieithog*, gan arwain y ffordd o ran cynnig Gwasanaeth Cyfieithu cynhwysfawr a hwyluso datblygiadau Gofal Cychwynnol fel rhan o gynllunio clystyrau. Mae Tîm y Gymraeg yn rhoi diweddariadau ddwywaith y flwyddyn i'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio ar ei chynllun gwasanaeth gweithredol, gan roi sicrwydd a chyfradd RAG o ran ein cydymffurfiaeth a'n terfynau amser.

Mae gofynion iaith Gymraeg wedi'u hymgorffori yn Adroddiad Integredig Ansawdd a Pherfformiad a gyflwynir i'r Bwrdd, yn adrodd ar gyflawnrwydd data sgiliau Cymraeg ar y Gofrestr Staff Electronig. Mae unrhyw dordyletswydd neu fethiant i gyflawni targedau'n gofyn am gwblhau adroddiad eithriadau, yn manylu ar gamau cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth ar gyfer y chwarter nesaf.

Mae blaenoriaethau allweddol o ran y Gymraeg wedi'u hymgorffori hefyd yn Fframwaith Cyflenwi GIG Cymru a chaiff adroddiadau eu cyflwyno ddwywaith y flwyddyn trwy'n Gyfarwyddiaeth Perfformiad i'w cyflwyno gerbron Llywodraeth Cymru.

Mae hyn wedi sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio i brosesau mewnol a monitro, gan sicrhau llwyfan sefydliad cyfan o ran perchnogaeth a chyflenwi.

## **Sicrwydd Perfformiad Mewnol**

Dechreuwyd Cynllun Monitro Gwasanaethau Dwyieithog newydd ym mis Mawrth 2018, er mwyn craffu ar argaeledd ac ansawdd gwasanaethau Cymraeg ar draws y Bwrdd Iechyd.

Trwy ddefnyddio cyfuniad o ymweliadau safle ac arolygon siopwr cudd, mae'r cynllun parhaus hwn yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth sefydliadol â gofynion allweddol yn Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys arddangos arwyddion, parhaol a thros dro, a darparu gwasanaethau derbynfa a ffôn ar safleoedd amrywiol.

Caiff nifer o ysbytai cymunedol, practisau dan reolaeth a gwasanaethau llym prif ysbytai eu harolygu bob blwyddyn. Yna caiff adroddiadau archwilio unigol eu cyflwyno i bob safle, practis, adran ac arweinydd gwasanaeth sy'n cynnwys trosolwg o'r canfyddiadau yn ogystal â'r camau sydd eu hangen er mwyn sicrhau lefel o gydymffurfiaeth. Yna bydd aelodau Tîm y Gymraeg yn trefnu i gyfarfod ag arweinwyr yr ardal, cyn gweithio ochr yn ochr â nhw i sicrhau bod unrhyw newidiadau a gwasanaethau angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith.

Mae rhoi'r cynllun ar waith eisoes wedi arwain at unioni nifer o fân ddiffygion ar safleoedd amrywiol ac, wrth reswm, mae hyn wedi cyfrannu at welliant cyffredinol o ran darpariaeth Gymraeg y Bwrdd Iechyd dros y flwyddyn ddiwethaf. O ganlyniad, mae rheolwyr wedi croesawu'r cynllun ac mae eu hymrwymiad i roi'r gwelliannau arfaethedig ar waith wedi bod yn galonogol. Mae hyn wedi gwneud cyfraniad mawr at y dimensiwn newid ymddygiad sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau.

Ar yr un pryd, mae nifer o enghreifftiau o arfer da sy'n bodoli eisoes wedi dod i'r amlwg, ac fel rhan o'r cynllun, caiff y rhain eu rhannu gyda safleoedd, practisau ac adrannau eraill. Er mwyn sicrhau bod mwy o atebolrwydd, adroddir ar ganfyddiadau cyffredinol i'r Tîmau Ardal a Rheoli Ysbyty a chaiff adroddiadau chwarter eu cyflwyno gerbron Fforwm Strategol y Gymraeg. Mae'r broses hon wedi caniatáu canfod ac unioni tueddiadau ehangach, ochr yn ochr â materion mwy lleol.

Bydd Cynllun Monitro Gwasanaethau Dwyieithog yn parhau yn ystod 2019-20 gyda'r nod o arolygu gwasanaethau am yr ail waith er mwyn sicrhau bod y diwygiadau a'r gwelliannau wedi'u cynnal.

## **Safonau'r Gymraeg**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i baratoi'r sefydliad ar gyfer Safonau'r Gymraeg sydd i ddod ac mae mewn sefyllfa erbyn hyn i gyflawni yng ngoleuni'r Safonau.

Mae Grŵp Rheoli Prosiect Safonau'r Gymraeg a sefydlwyd i arwain Safonau'r Gymraeg ac i yrru'r gwaith o'u cyflawni yn ei flaen yn parhau i gyfarfod bob chwarter. Mae aelodaeth y Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tri Thîm Rheoli Ardal, ynghyd â

staff rheoli dylanwadol o nifer o wasanaethau ac uwch adrannau, sy'n gyfrifol yn bennaf am arwain a chydlynu'r gwaith o gyflwyno Safonau'r Gymraeg a'u gweithredu ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r Swyddog Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg wedi bod yn gweithio ochr yn ochr ag aelodau i gyflwyno'r amcanion a sefydlwyd yn y Rhaglen Waith.

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd ei Hysbysiad Cydymffurfio Drafft ym mis Gorffennaf 2018, yn dilyn cyfnod ymgynghori o dri mis lle'r oedd disgwyl i'r sefydliad gymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch newidiadau posibl. Rhoddwyd yr Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol i'r sefydliad ar 30 Tachwedd 2018. Ers hynny, mae'r Swyddog Cydymffurfio wedi mynd i nifer o gyfarfodydd rheoli a thîm er mwyn rhannu negeseuon allweddol ac i ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol i gyflawni ein hamcanion ac i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau neu broblemau i'w goresgyn.

Un o'r prif feysydd ffocws fu asesu cwmpas y Safonau'n ymwneud â darparu gwasanaethau derbynfa dwyieithog. Mae'r Swyddog Cydymffurfio wedi gweithio gyda chynrychiolwyr ar y Grŵp Rheoli Prosiect i gasglu data ar ardaloedd derbynfa, niferoedd staff a'r rheiny sy'n medru'r Gymraeg ar hyn o bryd yn yr ardaloedd hynny. Mae unrhyw fylchau o ran darpariaeth wedi'u nodi ac mae camau wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Safonau. Yn dilyn gwaith cwmpasu gydag arweinwyr gwasanaethau switsfwrdd, mae Tiwtor Cymraeg mewnol y Bwrdd Iechyd wedi datblygu cwrs sydd wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer staff derbynfydd a switsfwrdd er mwyn rhoi'r sgiliau gofynnol iddynt ddelio ag ymholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Un maes ffocws arall ar gyfer Grŵp Rheoli Prosiect Safonau'r Gymraeg fu darparu cyrsiau addysg ar gyfer y cyhoedd. Mae gwasanaethau wedi cydweithio er mwyn datblygu asesiad sy'n addas at ei ddiben er mwyn dirnad cwmpas cynnig cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg gyda chleifion mewnol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn canolbwyntio ar gyflwyno Cynllun Dewis Iaith gan ddefnyddio logo oren 'Cymraeg Gwaith' ar ffurf maged er mwyn nodi dewis iaith cleifion. Mae'r gwaith a wnaed i brif ffrydio'r Gymraeg i Gynllun Achredu Wardiau wedi'i gynnwys yn y polisi hefyd ac, fel rhan o'r cynllun, caiff cyfres o safonau ei chyflwyno i staff er mwyn fframio ein hagenda ansawdd, diogelwch a gofal cleifion. Mae adnoddau'r cynllun yn cynnwys hysbysfyrddau croeso dwyieithog, byrddau diogelwch cleifion, byrddau profiad cleifion a symbolau magnetig.

Mae nifer o is-grwpiau i'r Grŵp Rheoli Prosiect wedi'u sefydlu er mwyn mynd i'r afael â materion mwy lleol a chaiff gwybodaeth neu arfer da ei rannu'n ddiweddarach gyda'r Grŵp Rheoli Prosiect.

Mae'r Swyddog Cydymffurfio hefyd yn gweithio ar ymgyrch fewnol er mwyn codi ymwybyddiaeth o ofynion y ddeddfwriaeth newydd o dan yr is-bennawd 'Wyt ti'n barod?' Caiff ymgyrch Bwrdd Iechyd cyfan ei lansio ym mis Mai 2019 er mwyn ymgysylltu â staff ynghylch gofal sy'n canolbwyntio ar gleifion trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae canllaw cyfeirio penodol wedi'i lunio, wedi'i anelu at staff o bob lefel ac ar draws yr holl wasanaethau, yn cynnig arweiniad a chymorth ar gyflawni'r Safonau.

## Mwy na Geiriau

Cwblhawyd Fframwaith Strategol Olynol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau'r Gymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, sef Mwy na Geiriau yn 2019 a, chynhaliodd y Bwrdd lechyd drosolwg eang o gydymffurfiaeth â'i brif dargedau a'i themâu. Mae camau a chynlluniau arloesol wedi'u rhoi ar waith i gyflawni cysyniad "Cynnig Rhagweithiol", sy'n golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb orfod gofyn amdano, a chaiff rhai o'r enghreifftiau cyflawni eu harddangos yn yr adroddiad hwn.

Bu'r Bwrdd lechyd yn bennaf gyfrifol am sefydlu Fforwm *Mwy na Geiriau* Gogledd Cymru ym mis Mai 2016. Mae'r grŵp a'i raglen waith wedi parhau i ffynnu yn ystod 2018-19 ac mae cynrychiolwyr bellach yn cynnwys nifer o sefydliadau perthnasol, yn cynnwys pob un o'r chwe awdurdod lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac Ysgol Gwyddorau Gofal lechyd Prifysgol Bangor. Mae'r Fforwm yn parhau i gyfarfod bob chwarter er mwyn hwyluso rhoi *Mwy na Geiriau* ar waith ar y cyd ar draws Gogledd Cymru. Mae hefyd yn llwyfan i rannu arfer gorau a dysgu. Mae Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Gwynedd, sydd hefyd yn Aelod Bwrdd Cyswllt BIPBC, yn cadeirio'r Fforwm.

Bu'r Bwrdd lechyd yn gysylltiedig â gweithdy *Mwy na Geiriau*, yn canolbwyntio ar nodi camau ar gyfer Cynllun Gweithredu *Mwy na Geiriau* 2019-2020. Mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu cynllun gweithredu blynyddol ar gyfer 2018-2019 yn seiliedig ar drywyddion *Mwy na geiriau* 2019-2020. Unwaith eto, rydym wedi croesgyfeirio'r rhain gyda Safonau'r Gymraeg a'n dimensiynau cyflenwi er mwyn sicrhau ymagwedd ddi-dor ar draws yr holl themâu a seilweithiau.

## Datblygiadau Hyfforddiant y Gymraeg

Mae hyfforddiant o ran y Gymraeg wedi esblygu'n strategol yn ystod y flwyddyn. Mae cydweithio i nodi grwpiau penodol e.e. Gofal yr Henoed, wedi caniatáu i Diwtor y Gymraeg deilwra cyrsiau ar lefelau sgiliau Cymraeg penodol er mwyn hwyluso cynllunio a chefnogi datblygiadau yn y dyfodol. Mae'r maes hwn yn agwedd datblygu sefydliadol allweddol ar Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y Bwrdd lechyd ac mae'n fwyfwy llwyddiannus ac mae'n elfen o'r strategaeth sy'n esblygu'n gyson.

### Rhaglen Hyfforddiant Mewnol Cymraeg y Bwrdd lechyd

Eleni, bu'r ffocws yn bennaf ar wella sgiliau gallu Cymraeg yn unol â'r matrices Cymraeg ar y Cofnod Staff Electronig (Lefel 0-5). Mae hyn wedi caniatáu i'r Tiwtor weithio'n agos gyda grwpiau penodol er mwyn nodi staff sydd â gwybodaeth dda o'r Gymraeg ond efallai nad oes ganddynt mo'r hyder i ddefnyddio eu Cymraeg yn y gwaith. Mae'r ymagwedd wedi arwain at gynnydd yn nifer y gwasanaethau sy'n gallu cynnal asesiadau clinigol a gwybyddol trwy gyfrwng y Gymraeg:

*"Rydw i'n gwybod faint mae'r staff yn gwerthfawrogi cyfraniad y Tiwtor, ac mae'n wych eu bod bellach yn gallu cynnig asesiadau ADOS trwy gyfrwng y Gymraeg"*

*Dr Elin Walker Jones, Seicolegydd Clinigol  
Ymgynghorol, Canolfan Datblygiad Plant Sir  
Ddinbych a Chonwy*

Gweithwyr Gofal Dementia yn Ysbyty Glan Clwyd, Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Maelor Wrecsam

Therapyddion Iaith a Lleferydd

Therapyddion Galwedigaethol

Mae canlyniadau ar y lefel hon yn dilyn buddsoddi mewnol o ran hyfforddiant Cymraeg wedi cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar yr ystod o wasanaethau y gallwn eu cynnig i'n cleifion.

### **Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg - Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Y Bwrdd Iechyd yw'r sefydliad cyntaf a'r unig un yng Nghymru ar wahân i sefydliadau addysg uwch i beilota'r fenter hon.

Mae'r *Dystysgrif Sgiliau Iaith* yn gymhwyster sydd wedi'i gydnabod a'i achredu gan y *Coleg Cymraeg Cenedlaethol* a Chydbwyllgor Addysg Cymru a ddatblygwyd i alluogi ymgeiswyr i ennill tystysgrif i ddangos tystiolaeth o'u sgiliau iaith Gymraeg a'u gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Ei nod hefyd yw hybu'r gallu i gyfathrebu'n hyderus ac yn broffesiynol yn Gymraeg, yn ysgrifenedig ac ar lafar er mwyn ymateb i anghenion y boblogaeth leol a defnyddwyr gwasanaeth.

Eleni, gwnaeth deg aelod o staff ymgeisio, ac roedd y cyfranogwyr yn amrywio rhwng meddygon ymgynghorol ym maes iechyd meddwl pobl hŷn, i lawfeddygon a nyrsys arbenigol. Mae'r holl gyfranogwyr wedi ennill y cymhwyster yn llwyddiannus. Yn dilyn llwyddiant y cynllun, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael cynnig i barhau i gydweithio â'r *Coleg Cymraeg Cenedlaethol*, gan ymestyn y cytundeb ymhellach.

### **Gweithio gyda rhaglen Cymraeg Gwaith, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

Mae *Cymraeg Gwaith* yn fenter a ariennir gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei chydlynu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Cafodd cytundeb ffurfiol ei sefydlu rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Ganolfan, lle byddai'r Ganolfan yn cynnig cyllid ychwanegol i gyflawni ar dargedau ac amcanion gwasanaeth penodol gyda'r nod o gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Roedd canlyniadau cytundeb Cymraeg Gwaith yn cefnogi ein darpariaeth hyfforddiant bresennol ac yn ategu ati, gan hwyluso cyfleoedd i staff trwy amrywiaeth o fodelau:



*Y Prif Weithredwr, Gary Doherty, yn cwblhau cwrs ar-lein Cymraeg Gwaith*

- Cwrs croeso/derbynfa ar-lein a chwrs iechyd ar-lein
- Cyrsiau dwys yn y gweithle
- Cyrsiau preswyl wedi'u teilwra i fagu hyder i siarad Cymraeg

Ers iddo ddechrau ym mis Ebrill 2018, mae 81 o aelodau staff wedi dilyn cyrsiau preswyl yn Nant Gwrtheyrn, ac mae dros 516 o aelodau staff wedi cofrestru â'r Cyrsiau Cymraeg

Gwaith ar-lein. Dros y flwyddyn ddiwethaf yma, mae'r Cyrsiau Cymraeg Dwys wedi'u peilota, lle gwelwyd ymateb eithriadol o uchel, gan arwain at gyfanswm o 164 o geisiadau. Oherwydd argaeledd cyfyngedig, y nifer terfynol fu'n mynychu'r cyrsiau oedd 35, ar dair lefel gallu ac ar dri safle ar draws Gogledd Cymru.

### Penodi Swyddog Cefnogi Hyfforddiant y Gymraeg

Eleni, penodwyd Swyddog Cefnogi Hyfforddiant y Gymraeg, sef swydd a ariennir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Cafodd y rôl ei chreu er mwyn sicrhau bod staff a oedd wedi ymuno â'r cyrsiau *Cymraeg Gwaith* yn cael cymorth ieithyddol parhaus a chyfleoedd am hyfforddiant unwaith yr oeddent wedi dychwelyd i'r gweithle. Fel rhan o'n gwerthusiadau ar gyfer y rhaglen hyfforddiant blynyddol, mae staff wedi nodi bod angen cymorth parhaus i gynnal y momentwm ac i ddatblygu sgiliau iaith ymhellach mewn lleoliadau anffurfiol ac yn y gwaith.

Mae'r gwaith a wneir gan y Swyddog Cefnogi wedi bod yn hynod werthfawr o ran cynnig ôl-ofal a chymorth mentora trwy nifer o fentrau a modelau gan gynnwys:

- Cefnogi 40 o aelodau o staff sydd wedi cofrestru ar y cyrsiau ar-lein trwy gynnig cymorth yn yr ystafell ddosbarth i gyd-daro â'r hyfforddiant digidol ac i wella sgiliau ynganu a siarad;
- Cynnig cyfleoedd anffurfiol i staff sydd wedi dilyn cyrsiau preswyl i roi eu Cymraeg ar waith mewn amgylcheddau cyfeillgar ac anffurfiol trwy glybiau a sesiynau, e.e. 'Cymraeg, Coffi a Chacen';
- Sefydlu Clwb Dysgwyr i drafod nofelau Cymraeg, sioeau teledu neu radio, neu unrhyw ddiwyddiad diwylliannol lleol;
- Cynnal sesiynau un-wrth-un gyda nifer o staff i baratoi ar gyfer cyrsiau preswyl, a chynnig mentora dilynol ar gyfer 35 o aelodau o staff a oedd wedi dilyn cyrsiau;
- Sefydlu gweithdai chwarterol ar gyfer dysgwyr ar bob lefel. Mae'r gweithdai hyn wedi'u hanelu at gyflwyno pynciau amrywiol a gyflwynir gan siaradwyr gwadd sy'n caniatáu i ddysgwyr fagu mwy o hyder ac annog trosglwyddo sgiliau iaith Gymraeg o'r ystafell ddosbarth i'r gweithle. Gwnaeth y sesiwn gyntaf ddenu dysgwyr ar lefelau amrywiol, a gwnaeth 88% nodi bod y gweithdy wedi bod yn 'addas iawn' i ddatblygu eu Cymraeg yn y gweithle;
- Creu rhwydwaith o ddysgwyr Cymraeg, gan gynnwys yr holl aelodau staff sydd wedi dilyn cyrsiau wyneb-yn-wyneb. Mae'r rhwydwaith wedi ein galluogi i hybu digwyddiadau sydd i ddod a hyfforddiant iaith Gymraeg er mwyn cynorthwyo staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach. Mae gweithdai pellach wedi'u trefnu yn ystod 2019.
- Creu cronfa ddata electronig yn ymwneud â hanes dysgu pob dysgwr sydd wedi cofrestru â'n gwasanaeth, sy'n cael ei alw'n Rhwydwaith y Dysgwyr. Mae hyn yn sicrhau bod modd lledaenu gwybodaeth i grwpiau o ddysgwyr penodol er mwyn rhoi gwybod iddynt am gyfleoedd dysgu addas newydd y gellir eu cyflawni'n ddiymdroi ac yn effeithlon erbyn hyn.

Yn dilyn trafodaethau gyda dysgwyr ar lefelau Canolradd ac Uwch, o'u holi p'un a ydynt yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gwaith, ffactor ataliol a nodwyd oedd diffyg hyder. Felly, mae cynllun *Ffrindlaith* yn fenter yr ydym wedi'i rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â hyn. Mae



siaradwyr Cymraeg rhugl yn cefnogi dysgwyr trwy baru unigolion sydd â diddordebau tebyg, gan gynnig cyfle i'r dysgwyr sgwrsio'n naturiol mewn amgylchedd cyfeillgar. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi normaleiddio'r iaith, gan ganiatáu iddynt fagu'r hyder angenrheidiol i'w defnyddio'n rheolaidd yn y gweithle.

Cafodd y cynllun ei roi ar waith a'i lansio yn y lle cyntaf yn yr Adran Fferylliaeth yn Ysbyty Glan Clwyd gyda grŵp penodol a oedd yn nodweddiadol o ddysgwyr sydd â sgiliau digonol i siarad Cymraeg ond nad ydynt yn ddigon hyderus i wneud hynny. Mae grŵp aelodaeth wedi'i sefydlu ac mae'n tyfu, gan ganiatáu i nifer digonol o ddysgwyr gofrestru i gael eu paru'n briodol. Mae canllawiau i gynorthwyo siaradwyr rhugl o ran y ffordd gywir o gynorthwyo dysgwyr y Gymraeg wedi'u datblygu.



Adran Fferylliaeth Ysbyty Glan Clwyd  
yn rhoi Ffrindlaith ar waith

### Enghraifft o gyflawniadau a llwyddiannau o ran dysgu'r Gymraeg

Gyda thros 650 o staff yn manteisio ar hyfforddiant yn y Gymraeg dros y flwyddyn adrodd flaenorol, mae nifer o enghreifftiau o arfer ardderchog a llwyddiannau. Dyma rai enghreifftiau ysbrydoledig o unigolion a grwpiau sydd wedi bod yn dysgu Cymraeg dros y 12 mis diwethaf.

### Dr Anita Staddon – Cymrawd Clinigol mewn Oncoleg yn Ysbyty Glan Clwyd

Gwnaeth Dr Anita Staddon symud i Gymru o Iwerddon yn ddiweddar ac, ers hynny, mae hi wedi bod yn gweithio yn Ysbyty Glan Clwyd, ar ôl cwblhau cwrs hyfforddiant Lefel 1 yn y Gymraeg. Gyda chymorth pellach gan ein Swyddog Cefnogi, gall siarad Cymraeg sylfaenol erbyn hyn gan roi cyfarchion, cyflwyniadau ac ymadroddion o ddydd i ddydd ar waith.

*"Rydw i'n teimlo ei fod o gymorth yn fy maes i, yn enwedig i greu cyswllt â chleifion Cymraeg eu hiaith. Gan fod y rhan fwyaf o bobl yn ddwyieithog ac yn rhugl yn y Saesneg, mae'n hawdd anghofio bod rhai pobl yn teimlo'n fwy cyfforddus yn eu mamiaith. Bydd cleifion yn gwenu arnaf yn eu syndod pan fyddaf yn dweud wrthynt fy mod i'n dysgu Cymraeg, ac rydw i wedi gweld eu bod yn gynulleidfa groesawgar iawn - mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwerthfawrogi'r ffaith ein bod yn gwneud yr ymdrech i ddysgu eu mamiaith"*



Dr Anita a Catrin, ein Swyddog Cefnogi Hyfforddiant

### Grŵp Tystysgrif Sgiliau Cymraeg

Gwnaeth rhai o'r staff sydd wedi dilyn y dystysgrif yn flaenorol fynychu cwrs magu hyder preswyl gan arwain at eu dymuniad i gyflawni tystysgrif achrededig i ddangos eu sgiliau Cymraeg a'u gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cwrs wedi caniatáu iddynt fireinio eu gramadeg Gymraeg a sgiliau Cymraeg ar lafar, gan roi'r

hyder a'u cymorth sydd eu hangen arnynt i drosglwyddo'r sgiliau hyn yn y gweithle.

Mae'r cwrs yn heriol ac mae'n gofyn am ymrwymiad ac adolygu, sydd wedi talu ar ei ganfed gan eu bod wedi ymroi'n llwyr i'r cwrs ac maent wedi cael llwyddiant yn yr arholiadau ysgrifenedig a llafar.



fel  
Cymru.

rhan o Gynllun Cymraeg Gwaith Llywodraeth

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi comisiynu cwmni annibynnol i gynnal gwerthusiad llawn o'i ddarpariaeth hyfforddiant Cymraeg trwy'r cyllid a ddarperir

## Gwasanaethau Gofal Cychwynnol

Mae Tîm y Gymraeg wedi bod yn rhagweithiol o ran annog contractwyr gofal cychwynnol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, er nad oes unrhyw ofyniad statudol i gydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd. Felly mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd y filltir ychwanegol o ran lefel y cymorth a gynigir i gontractwyr. Rydym yn parhau i dargedu practisau unigol, ac mae nifer o Bractisau Meddygon Teulu yn elwa ar gymorth ac arweiniad uniongyrchol gan Dîm y Gymraeg.

Using your **Welsh** at the Pharmacy  
Defnyddio'r **Gymraeg** yn y Fferyllfa

How? / Sut?	Medicines / Ffisig
Take Cymrwch	Five millilitres Pum millitr
Give Rhowch	Ten millilitres Deg millitr
Rub Rhwblwch	Fifteen millilitres Un deg pump millitr
Swallow Llyncwch	

How many? / Faint?	Drops / Diferyn
One tablet Un tabled	One drop Un diferyn
Two tablets Dau dabled	Two drops Dau diferyn
Three tablets Tri tabled	Three drops Tri diferyn
Four tablets Pedwar tabled	Four drops Pedwar diferyn
Half a tablet Hanner tabled	

Er gwaethaf llwyddiant y lefel hon o gymorth a gynigir i Bractisau Meddygon Teulu, roedd y Bwrdd Iechyd yn awyddus i ehangu ei gymorth i feysydd eraill o fewn darpariaeth gofal cychwynnol. O ganlyniad i brosiect ar y cyd â Hunaniaith a Menter Iaith Bangor, roedd y Bwrdd Iechyd yn gallu gyrru cymorth yn ei flaen o fewn fferyllfeydd ar draws yr ardal. Datblygwyd Pecyn Cymraeg yn y Fferyllfa gyda'r nod o annog mwy o staff fferyllfa i

ddefnyddio'r Gymraeg, ac er mwyn gwneud yr iaith yn fwy gweladwy mewn fferyllfeydd, er budd cleifion Cymraeg eu hiaith. Bydd y pecynnau hyn yn hwyluso fferyllwyr a staff y fferyllfa i ddatblygu gwasanaeth wyneb-yn-wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y cyhoedd, trwy ddarparu ymadroddion defnyddiol sy'n ddefnyddiol

yn y sector. Trwy arddangos y posteri fferyllfa teilwredig, mae hefyd yn rhoi gwybod i'r cyhoedd ac yn eu hatgoffa bod croeso iddynt siarad Cymraeg pan fyddant yn manteisio ar wasanaethau. Yn ogystal â chryfhau sgiliau Cymraeg fferyllwyr a staff y fferyllfa, bydd y pecynnau hyn hefyd o fantais i aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau, ac efallai hefyd y gallai helpu i roi mwy o hyder iddynt ddefnyddio'r Gymraeg pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau fferyllfa.

Ar 13 Mehefin 2018, cafodd Pecyn Cymraeg yn y Fferyllfa ei lansio yn Fferyllfa Morrisons, Bangor. Pwysleisiodd Prif Fferyllydd Morrisons, Cameron Kinnell, werth cydweithio:

*"Mae hi wedi bod yn anrhydedd a braint i mi fy hun ac ar ran Fferyllfa Morrisons i gael bod yn rhan o'r prosiect hwn o'r cychwyn cyntaf. Mae'r cymorth a'r gefnogaeth rydym wedi'u cael gan y Bwrdd Iechyd, Hunaniaith, a Menter Iaith Bangor wedi bod yn amhrisiadwy, ac edrychwn ymlaen at barhau i ddatblygu a darparu'r gofau gorau i'n cleifion trwy gyfrwng y Gymraeg."*



Lansio Pecyn Cymraeg yn y Fferyllfa yn Morrisons, Bangor


### **Practisau dan Reolaeth**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn ehangu ei wasanaethau Cymraeg ac yn eu gwella mewn nifer o bractisau meddygon teulu sy'n cael eu rheoli gan y Bwrdd Iechyd. Mynychwyd cyfarfodydd Rheolwyr Practis er mwyn darparu gwybodaeth am feincnodau statudol y Gymraeg ac i gynnig cyngor ar sut mae'r gwaith o'u cyflwyno'n debygol o effeithio ar bractisau a reolir. Datblygwyd rhaglen waith ranbarthol er mwyn sicrhau y gellid cynnig darpariaeth ddwyieithog ar y safleoedd hynny mewn ffordd brydlon a chyson, ar ôl dechrau cynnig cymorth yn llwyddiannus yng Nghanolfan Feddygol Rhiwabon. Mae sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi'u cynnal i staff ym Meddygfa Forge Road yn Southsea, Canolfan Feddygol Hillcrest a Meddygfa Parc Borrás yn Wrecsam, ac mae nifer o gamau sylweddol eraill wedi'u cymryd mewn perthynas â gohebiaeth ysgrifenedig, arwyddion a gwasanaethau ffôn. Mae Tîm Cyfieithu'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi rhoi cymorth ychwanegol i drosi nifer fawr o dempledi llythyr generig i'r Gymraeg.


Cafodd y rhaglen waith ei chyflwyno'n ddiweddarach i'r holl bractisau a reolir ar draws Gogledd Cymru, ac mae cymorth pellach ar ffurf sesiynau blasu a gyngir gan Diwtor y Gymraeg wedi'u trefnu hefyd. Gan fod practisau a reolir wedi'u cynnwys fel rhan o fframwaith atebolrwydd gwasanaethau Cymraeg, mae gwaith yn mynd yn ei flaen i ddatblygu gwasanaethau ymhellach ac i fonitro eu hynt.

## **Y Gwasanaeth Cyfieithu**

Mae Gwasanaeth Cyfieithu'r Bwrdd Iechyd wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau cyfieithu a dderbyniwyd eleni. Derbyniwyd 1,107,840 yn fwy o eiriau yn 2018-19 o'i gymharu â 2017-18, cynnydd sylweddol o 41.4 y cant, fel y dangosir isod.



Isod mae dadansoddiad o nifer y geiriau a gafodd eu cyfieithu bob mis yn ystod y cyfnod adrodd:



Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed i godi ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg. Mae hefyd yn adlewyrchu'r gwaith a wneir yn barhaus i hyrwyddo Gwasanaeth Cyfieithu'r Bwrdd Iechyd ymysg staff. Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r tîm wedi ymweld â safleoedd cymunedol a phractisau a reolir er mwyn hyrwyddo'r gwasanaeth a'i ehangu. Rydym hefyd wedi sefydlu proses i gyfieithu gohebiaeth fewnol a newyddlenni i staff.

Rydym wedi sefydlu a hwyluso rhwydwaith Gogledd Cymru yn cynnwys partneriaid o sefydliadau sector cyhoeddus sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i rannu dysgu, gan nodi anghenion hyfforddiant a mynd i'r afael â materion fel recriwtio. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda *Cymdeithas Cyfieithu Cymru* i hwyluso cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol.

Rydym wedi parhau i wella sgiliau a hyfforddiant ar gyfer y tîm cyfan er mwyn cynnig cyfieithu ar y pryd ar gyfer pwyllgorau a fforymau'r Bwrdd Iechyd. Byddwn yn ehangu hyn dros y misoedd sydd i ddod, ac mae'r cyfan wedi cynnwys cydweithio â

phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus fel Cyngor Gwynedd a Heddlu Gogledd Cymru.

Mae'r gwasanaeth cyfieithu wedi dechrau ar brosiect cyfieithu cyffrous hefyd ar gais gwasanaeth CAMHS y Bwrdd Iechyd. Cafodd Rhaglenni Gwydnwch FRIENDS eu datblygu yn Awstralia ac maent yn grŵp â chydabyddiaeth ryngwladol sy'n ymwneud ag ymyriadau sy'n addysgu technegau i blant, pobl ifanc ac oedolion o ran ymdopi â gofid a hybu lles, sgiliau cymdeithasol ac emosiynol a gwydnwch. Mae'r tîm cyfieithu'n gwneud y gwaith hwn, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, a chaiff y Bwrdd Iechyd ei gydnabod yn llawn am gyfieithu'r holl lyfrau gwaith a llawlyfrau hwyluswyr i'r Gymraeg fel eu bod ar gael i ysgolion ac ymarferwyr ledled Cymru.

## Datblygiadau'r Gwasanaeth a Phrif Gyflawniadau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ei wasanaethau hyd yn oed ymhellach eleni gan fod nifer o ddatblygiadau a gweithgareddau wedi cael eu rhoi ar waith ar draws y sefydliad. Mae'r adran hon yn cynnig trosolwg byr o rai o'r mentrau mwyaf arloesol yr ydym wedi'u gweld ar draws Cymru.

### Cynllun Dewis Iaith

Mae'r Cynllun Dewis Iaith, sy'n defnyddio magnedau oren i nodi cleifion a staff Cymraeg eu hiaith ar y wardiau, wedi parhau i ffynnu gydag adborth cadarnhaol yn cael ei dderbyn yn gyson gan ddefnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a gweithwyr y Bwrdd Iechyd fel ei gilydd.

Ar ôl cael ei beilota ar wardiau penodol yn Ysbyty Gwynedd ddechrau 2017, mae'r cynllun wedi'i ehangu'n sylweddol erbyn hyn ac mae ar waith mewn nifer o wardiau mewn ysbytai llym a chymunedol ledled Gogledd Cymru. Disgwylir i'r ehangu yma barhau yn ystod 2019-20, trwy gyflwyno'r cynllun mewn ysbytai cymunedol ar draws Gogledd-ddwyrain Cymru i ddechrau yn Ysbyty Cymuned Y Waun. Mae'r Cynllun Dewis Iaith eisoes ar waith yn Uned y Newydd-anedig yn Ysbyty Glan Clwyd, ond, ar 1 Mai 2019, caiff y Cynllun ei lansio a'i gyflwyno ar draws yr holl wardiau yn yr ysbyty.



Mae'r Uwch Nyrs Staff yn Uned y Newydd-anedig yn amlinellu isod bod staff a rhieni'n elwa ar allu adnabod siaradwyr Cymraeg eraill yn hawdd:

#### **Beth yw'r manteision i chi sydd ynghlwm wrth roi'r Cynllun ar waith?**

Mae staff yn yr Uned wedi dod yn fwyfwy ymwybodol o anghenion penodol/unigol pob teulu. Mae'r magnedau'n caniatáu i ni weld a yw rhieni newydd yn medru'r Gymraeg, heb i ni orfod gofyn.

#### **A yw'r cynllun wedi caniatáu i chi baru staff Cymraeg eu hiaith â chleifion sy'n medru'r Gymraeg?**

Do. Pan fydd aelodau o staff Cymraeg eu hiaith ar ddyletswydd yn yr Uned, cânt eu paru â siaradwyr Cymraeg eu hiaith erbyn hyn.

#### **Pa wahaniaeth y mae'r cynllun wedi'i wneud i'r teulu?**

Gan fod ein staff hefyd yn gwisgo logo 'Dw i'n siarad Cymraeg' ar eu gwisg, mae'r Cynllun yn gweithio i'r ddwy ffordd gan fod rhieni hefyd yn

gweld pa aelodau staff sy'n medru'r Gymraeg heb orfod gofyn. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus, gan eu bod yn gallu cyfathrebu â'r aelodau hynny o staff yn eu hiaith gyntaf.

## Cynllun Dewis Iaith - Byrddau Gwyn Electronig

Trwy weithio gyda Tîm Gwybodeg y Bwrdd Iechyd, mae datblygiad arloesol wedi'i beilota ar nifer o wardiau yn Ysbyty Glan Clwyd. Caiff gwybodaeth am gleifion ei gosod ar fwrdd gwyn electronig mawr sy'n caniatáu i staff gael mynediad hawdd ato. Mae'r Tîm Gwybodeg wedi diwygio'r system fel y caiff logo 'Cymraeg' oren ei arddangos yn ymyl enwau'r cleifion Cymraeg eu hiaith. Bydd cynnwys gwybodaeth am ddewisiadau ieithyddol ar y sgriniau wrth reswm yn hwyluso rhoi'r Cynllun Dewis Iaith ar waith, trwy ei gwneud yn haws i staff nodi pa gleifion y mae'n well ganddynt gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Defnyddiwch eich Cymraeg...yn y Gwaith!

Ar 18 Chwefror 2019, gwnaeth y Bwrdd Iechyd ail-lansio ei ymgyrch *Defnyddiwch eich Cymraeg* ar ei newydd wedd, gyda phwyslais ar annog staff i ddefnyddio eu Cymraeg yn y gwaith, gyda chydweithwyr, cleifion ac ymwelwyr. Mae'r ymgyrch yn annog pob aelod o staff i ddefnyddio eu Cymraeg, waeth a ydynt

yn rhugl, neu os ydynt ond yn gallu dweud ychydig eiriau. Bu un o brif negeseuon yr ymgyrch yn canolbwyntio ar y ffaith na ddylai aelodau staff ofni defnyddio hynny o Gymraeg sydd ganddynt, ac ni ddylent feddwl byth nad yw eu sgiliau Cymraeg yn ddigon da. Mae profiad blaenorol wedi dangos eu bod yn gwerthfawrogi unrhyw ymdrech a wneir i siarad â nhw yn Gymraeg. Trwy gyflwyno'r ymgyrch hon ar draws y tri phrif safle ysbyty, mae wedi codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn fewnol ymhlith staff a'i phwysigrwydd yn y sector iechyd, ac mae wedi cynyddu'r cyfleoedd sydd gan gleifion i ddefnyddio'r iaith o ganlyniad.



Staff BIPBC yn dathlu ymgyrch  
'Defnyddiwch eich Cymraeg yn y Gwaith!'



Roedd ymgyrch *Defnyddiwch eich Cymraeg yn y Gwaith* yn cynnwys cyhoeddi ail rifyn newyddlen Tîm y Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a ddosbarthwyd yn eang. Fel rhan o'r ymgyrch ar ei newydd we, roedd pwyslais hefyd ar hawliau staff i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywyd gwaith. Gwnaeth hyn atgyfnerthu a chadarnhau ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i roi'r Safonau Gweithredol ar waith yn dilyn cymeradwyo *Gweithdrefn y Bwrdd Iechyd Cyfan ar Ddefnyddio'r Gymraeg yn Fewnol* yn 2017.

Gwnaeth aelodau staff rannu eu profiadau a gwahanol negeseuon am bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg yn y lleoliad gofal ar sianeli cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd. Gwnaeth siaradwyr Cymraeg rhugl, dysgwyr Cymraeg rhugl, ac aelodau staff sy'n dechrau eu taith o ran dysgu'r iaith gyfrannu at yr ymgyrch hefyd, gyda phob un yn canolbwyntio ar fudd defnyddio'r Gymraeg gyda chleifion, a welwyd gan dros 10,000 o bobl ar y cyfryngau cymdeithasol. Cafodd stondinau hyrwyddo eu cynnal yn y tri phrif ysbyty llym, gan ddsbarthu adnoddau ategol i aelodau staff. Gwnaeth gwaith ymgysylltu â staff barhau wrth i Dîm y Gymraeg ymweld â'r wardiau lle buont yn siarad â staff clinigol. Cafodd gweithdy *Defnyddiwch eich Cymraeg* llwyddiannus ei gynnal hefyd, a bu siaradwyr gwadd o'r *Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol* yn bresennol i roi cyflwyniadau ac awgrymiadau defnyddiol ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg a throsglwyddo'r iaith yn y gweithle. Cafodd *Cynllun Ffrindiaith* ei lansio hefyd fel rhan o'r ymgyrch, sy'n gyfle i ddysgwyr y Gymraeg ymarfer siarad Cymraeg mewn amgylchedd cyfeillgar, ac i'w helpu i fagu hyder o ran defnyddio'r Gymraeg. Cafodd yr ymgyrch groeso brwdfrydig a phositif, ac roedd lefel uchel o ymgysylltu a chyfranogiad yn y gweithle gan staff ar bob lefel.



Aelodau Tîm y Gymraeg yn lansio'r ymgyrch

## Cymraeg i Blant

Un o brif feysydd datblygu strategaeth Llywodraeth Cymru *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*, yw trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu. Fel rhan o gyflwyno'r strategaeth, mae gan fyrdau iechyd rôl allweddol i'w chyflawni o ran cefnogi rhieni. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn cydweithio â *Cymraeg i Blant*, sef cynllun a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cynorthwyo rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant. Mae Uwch Adran Merched y Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio'n ddiwyd i gefnogi'r fenter hon, gan gynnig adnoddau *Cymraeg i Blant* fel sganiau dwyieithog, ffolderi mamolaeth dwyieithog ac adnoddau ategol eraill er mwyn gwella gwelededd y Gymraeg mewn gwasanaethau mamolaeth.



Tîm y Gymraeg a Cymraeg i Blant yn darparu gwybodaeth ar gyfer darpar rieni.

Gwnaeth cynrychiolwyr o *Cymraeg i Blant* fynychu Cynhadledd Bydwagedd y Bwrdd Iechyd yn Wrecsam yn ystod mis Mai eleni, lle cawsant y cyfle i ymgysylltu â staff o'n gwasanaethau mamolaeth yn trafod gwerth trosglwyddo a chyflwyno'r Gymraeg i blant o oedran ifanc. Mae'r cydweithio wedi cynnwys swyddogion *Cymraeg i Blant* yn mynd i sesiynau Crefftau Rhieni a sesiynau ioga i famau a babanod. Mae gwybodaeth hefyd wedi'i chynnwys yn y pecyn absenoldeb mamolaeth electronig y bydd yr holl famau'n eu derbyn cyn eu habsenoldeb mamolaeth.



*Sioned o Dîm y Gymraeg yn trafod manteision magu plant yn ddwyieithog*

Gwnaeth Tîm Cymraeg y Bwrdd Iechyd, ynghyd â *Cymraeg i Blant*, gynnal stondin yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar er mwyn caniatáu iddynt gyfarfod â darpar famau ac i drafod manteision y Gymraeg o ran datblygiad plant, a buddion magu plant yn ddwyieithog. Mae'r gwaith partneriaeth hwn yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd yn Ysbyty Maelor Wrecsam a chaiff ei ehangu i gynnwys gwasanaethau cymunedol ar draws Gogledd Cymru.

## Gweithio gydag ysgolion a cholegau

Gan adeiladu ar ddigwyddiadau llwyddiannus a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol, gwnaeth y Bwrdd Iechyd uwchraddio ei waith gydag ysgolion a sefydliadau addysg bellach er mwyn hybu buddion cael sgiliau dwyieithog mewn gweithlu proffesiynol.

Yn dilyn llwyddiant gweithdy cychwynnol a gynhaliwyd yn Ysgol Morgan Llwyd, yn Wrecsam, yn ystod Wythnos y Gymraeg gyntaf y Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2018, cafodd cyfres o ddigwyddiadau tebyg eu cynnal mewn ysgolion uwchradd ledled Gogledd Cymru ym mis Gorffennaf 2019.

Bu Tîm y Gymraeg yn gweithio gyda *Gofal Cymdeithasol Cymru*, y *Coleg Cymraeg Cenedlaethol* a *Gyrfa Cymru* i drefnu gweithdai ar gyfer disgyblion blwyddyn 9 a 10 yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy, Ysgol y Creuddyn, Bae Penrhyn, Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy ac Ysgol Maes Garmon, ac Ysgol Morgan Llwyd. Roedd y gweithdai'n cynnwys cyfres o gyflwyniadau, a oedd yn dangos pwysigrwydd darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol Cymraeg, gan amlygu buddion dwyieithrwydd fel sgil cyflogaeth ar yr un pryd.

*'Roedd clywed am bwysigrwydd y Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd yn hynod fuddiol i'r myfyrwyr, yn enwedig wrth iddynt gael clywed yn uniongyrchol gan bobl sy'n gweithio yn y sector, yn hytrach nag athrawon a darlithwyr. Roedd y trafodaethau'n fywiog ac yn ddiddorol, ac roeddent yn pwysleisio gwerth y Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol ac arholiadau. Diolch yn fawr iawn'.*

**Trystan Derbyshire (Pennaeth Blwyddyn 10, Ysgol Morgan Llwyd)**

Gwnaeth nyrs newydd gymhwyso sy'n gweithio yn Ysbyty Gwynedd roi cyflwyniad yn y gweithdai, gan rannu ei phrofiadau o astudio a gweithio'n ddwyieithog. Cafodd y digwyddiadau hyn groeso gwresog, a gwnaeth ysgolion a gymerodd ran rannu eu gwerthfawrogiad ar y cyfryngau cymdeithasol.

Ochr yn ochr â'r gweithdai hyn, gwnaeth Tîm y Gymraeg gyfrannu hefyd at ddigwyddiad tebyg a drefnwyd ar gyfer myfyrwyr addysg bellach ar gampws Coleg Iâl, Coleg Cambria, yn Wrecsam.

Y tu hwnt i hyn, gwnaeth aelodau Tîm y Gymraeg fynd i weithdai pellach ar gyfer disgyblion blwyddyn 10 mewn dwy ysgol cyfrwng Saesneg, Ysgol John Bright, Llandudno ac Ysgol Uwchradd y Rhyl.

*'Roedd yn ardderchog gan fy mod i wedi dysgu, waeth faint o Gymraeg sydd gen i, boed yn dda neu'n ddrwg, gallaf ei ddefnyddio ac y bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth mewn perthynas â chael gwahanol swyddi'.*

#### **Adborth gan ddisgybl blwyddyn 10 yn Ysgol Uwchradd y Rhyl**

Gwnaeth Tîm y Gymraeg dderbyn gwahoddiad gan *Gyrfa Cymru* hefyd i fynd i ddigwyddiad gwib-rwydweithio ar gyfer plant ysgolion cynradd lleol yn Ysgol y Grango, yn Rhosllannerchrugog, a oedd â'r bwriad o helpu disgyblion blwyddyn 6 i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu a'u hyder gan ddysgu am ddefnyddio Cymraeg mewn gweithleoedd amrywiol. Bu'r Bwrdd Iechyd yn un o blith chwech o gyflogwyr yn y Gogledd-ddwyrain i gymryd rhan yn y digwyddiad, a bu dros 160 o bobl ifanc rhwng 10 ac 11 oed o bedair ysgol gynradd leol yn bresennol. Yn dilyn llwyddiant y digwyddiad hwn, mae dau ddigwyddiad pellach 'Cymraeg yn y Gweithle' wedi'u trefnu.



*Lesley, Gweithiwr Cymorth dementia yn Ysbyty Gwynedd yn trafod y Cynllun Dewis Iaith gyda myfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai*

Mae gwaith wedi'i wneud hefyd gyda myfyrwyr sy'n astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a gwnaeth myfyrwyr o Grŵp Llandrillo Menai ymweld ag Ysbyty Gwynedd er mwyn dysgu sut mae gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig a'u darparu i gleifion. Derbyniodd y myfyrwyr sesiwn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, a oedd yn canolbwyntio ar hawliau cleifion i dderbyn gwasanaethau Cymraeg, ynghyd â mentrau a gweithdrefnau a roddwyd ar waith yn y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod anghenion ieithyddol cleifion yn cael eu diwallu

Mae gwaith wedi'i wneud hefyd gyda myfyrwyr sy'n astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a gwnaeth myfyrwyr o Grŵp Llandrillo Menai ymweld ag Ysbyty Gwynedd er mwyn dysgu sut mae gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig a'u darparu i gleifion. Derbyniodd y myfyrwyr sesiwn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, a oedd

yn canolbwyntio ar hawliau cleifion i dderbyn gwasanaethau Cymraeg, ynghyd â mentrau a gweithdrefnau a roddwyd ar waith yn y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod anghenion ieithyddol cleifion yn cael eu diwallu.

*Diddorol iawn gweld y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio\*. Roedd yn hyfryd gweld y cymorth sydd ar gael i staff er mwyn dysgu'r Gymraeg ac i'w ddefnyddio yn y gweithle, a'r effaith bositif y mae hyn yn ei gael ar ddefnyddwyr gwasanaeth.*

**Tiwtor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Grŵp Llandrillo**

Yn dilyn y cyflwyniad, cafodd y myfyrwyr y cyfle i weld nifer o'r mentrau hyn ar waith gan ymweld â Ward Glaslyn i weld ein Cynllun Dewis Iaith yn cael ei roi ar waith fel rhan o'r gofal a gynigir i bobl sy'n byw gyda dementia. Cawsant y cyfle hefyd i ymweld â'r Adran Fferylliaeth er mwyn gweld y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol yng nghyd-destun iechyd, a chawsant y cyfle i siarad ag Yankier Perez, Technegydd Fferyllfa sy'n hanu o Giwba, ac sydd wedi dysgu Cymraeg hyd

ruglder, er mwyn gallu sgwrsio â chleifion. Roedd y myfyrwyr a'r tiwtoriaid oll yn gweld y sesiynau'n fuddiol, yn enwedig gweld yn uniongyrchol y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd bob dydd.

## Ymgysylltu â Staff ac Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Mae Tîm y Gymraeg wedi parhau â'i nod o ymgysylltu ymhellach â'r gweithlu er mwyn codi ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg a'r goblygiadau i aelodau unigol o staff. Eleni, fel rhan o'n sesiynau ymwybyddiaeth iaith, rydym wedi ymgysylltu â'n staff i benderfynu pa mor ymwybodol ohonynt o ofynion yn ogystal â chael cipolwg gwerthfawr ar ba un a yw gwybodaeth a gyflwynir fel rhan o sesiynau ymwybyddiaeth o iaith yn cyfrannu at eu hymagweddau cyffredinol a thanddatgan yn y gweithle.

### Sesiynau Ymwybyddiaeth Rhyngwladol

Un enghraifft o hyn yw'r gwaith a wneir gyda'r Gwasanaeth Ymddaliad a Symudedd. Cafodd tair sesiwn ymwybyddiaeth iaith eu cynnal, un ym Mryn-y-Neuadd a'r llall gyda staff sy'n gweithio yn Wrecsam, yn cynnwys cyfanswm o 28 o bobl. Roedd y sesiynau wedi'u strwythuro i esbonio pwysigrwydd darpariaeth gofal iechyd dwyieithog ac i'w hail-bwysleisio ac i rymuso staff i gynnig eu gwasanaethau'n briodol. Cafodd holiadur a ffurflen adborth eu dosbarthu ar ddiwedd pob sesiwn er mwyn penderfynu p'un a oedd y wybodaeth a roddwyd wedi cyfrannu at eu dealltwriaeth o'r pwnc a pha un a fyddai hyn yn newid eu harferion gwaith. Cafodd y sesiynau groeso gwresog ac mae'r canfyddiadau wedi'u hamlinellu isod.

Cwestiwn	✓	X
A oeddech yn ymwybodol o ddeddfwriaeth y Gymraeg cyn y sesiwn?	41%	59%
A wnaeth cynnwys y cyflwyniad gyfrannu at eich dealltwriaeth am y pwnc?	96%	4%
A ydych yn teimlo eich bod yn fwy ymwybodol o'r Gymraeg yn dilyn y sesiwn?	75%	25%

A ydych yn bwriadu ymddwyn yn wahanol yn y gweithle ar ôl y sesiwn hon?	82%	18%
---	-----	-----

Pan ofynnwyd pa thri pheth a oeddent wedi'u dysgu, roedd y themâu cyffredin yn cynnwys:

- Ei bod yn bwysig ystyried pethau o safbwynt y claf
- Bod galluogi'r claf i ddefnyddio ei iaith gyntaf yn bwysig (yn enwedig) gan y gallai fod o dan straen
- Pwysigrwydd gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg i blant bach, pobl hŷn, defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledau dysgu
- Sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a beth i'w wneud mewn sefyllfaoedd gwahanol

Un o rannau pwysicaf y sesiwn oedd p'un a fyddai'r wybodaeth a gâi ei darparu'n cael effaith ar y ffordd maent yn gwneud gwaith ar lefel weithredol. Wrth drafod pa beth unigol y byddent yn mynd ag ef yn ôl i'r gweithle, y prif themâu a ddaeth i'r amlwg oedd:

- 'Rydw i'n mynd i ddysgu mwy o Gymraeg ac i'w defnyddio'n amlach'
- 'Rydw i'n mynd i roi'r Cynnig Rhagweithiol ar waith'
- 'Rydw i'n mynd i gofio am ofyn i gleifion beth yw eu hiaith gyntaf'
- 'Byddaf yn ceisio siarad Cymraeg pan fydd angen gwasanaeth Cymraeg ac i wneud hyn yn haws, byddaf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i wella fy hyder'

Mae ymgymryd â'r ymarfer ymgysylltu hwn wedi dangos bod rhannu gwybodaeth ar y lefel hon wedi gwneud gwahaniaeth i'r staff sy'n gweithio ar y rheng flaen, gan gyflawni prif nodau'r sesiwn, ac y bydd yn parhau i wneud hynny.

### **Modiwl Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg Cymru Gyfan Ar-lein**

Er mwyn sicrhau bod hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gael ac i hwyluso mynediad ato, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn arwain ar ddatblygu modiwl Cymru Gyfan ar-lein. Bydd y modiwl hwn ar gael i holl staff GIG Cymru trwy ESR.

Mae fersiwn ddrafft o'r adnodd newydd wedi'i ddatblygu gan Dîm Cymraeg y Bwrdd Iechyd, ac rydym wrthi'n gweithio gyda Rheolwr Rhaglen Dysgu trwy Dechnoleg (TeL) GIG Cymru i droi'r fersiwn ddrafft honno'n fodiwl rhyngweithiol cyfredol. Bydd hyn yn sicrhau bod modd i hyfforddiant ymwybyddiaeth fod ar gael i'r holl staff, boed hynny ar ffurf sesiynau wyneb-yn-wyneb wedi'u cynnig trwy Dîm y Gymraeg neu drwy ddilyn hyfforddiant ESR ar-lein.

## **Data Dangosyddion Perfformiad**

Gosodwyd dangosyddion perfformiad gan Gomisiynydd y Gymraeg ac maent yn gysylltiedig yn uniongyrchol â gofynion Cynllun Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd.

## Asesiad Effaith Polisi

- ***Niferoedd a chanran y polisïau (gan gynnwys y rhai a adolygwyd neu a ddiwygiwyd) lle ystyriwyd yr effaith y byddai'r polisi yn ei gael ar ddefnydd o'r Gymraeg.***

Mae pob polisi a menter a gynhrychir gan y Bwrdd Iechyd yn destun Asesiad Effaith Cydraddoldeb, sy'n cynnwys asesiad effaith iaith.

Yn 2018/19, cafodd 53 o bolisïau eu llunio neu eu diwygio, ac archwiliwyd 100 y cant ohonynt am asesiad effaith iaith. O'r rhain, roedd 5 polisi (9 y cant) yn cyfeirio'n benodol at y Gymraeg, lle byddai polisi yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg fel rhan o ddarpariaeth gwasanaeth y sefydliad.

Roedd polisïau lle nad oedd angen cyfeirio at y Gymraeg yn amrywio rhwng polisïau clinigol (e.e. *protocol Clostridium difficile*, gweithdrefnau *Dadlygru*, *Rheoli'r Ffliw*), polisïau Rheoli Meddyginiaeth (e.e. *Polisi Cyfyngiadau Gwrthficrobaidd*) i Bolisïau Dyfeisiau Meddygol (e.e. *Gweithdrefn ar gyfer Dethol*, *Benthyca a Chaffael Dyfeisiau Meddygol*). Roedd y polisïau, fel rhan o'r asesiadau cadarn o effaith, wedi'u nodi fel rhai nad oeddent yn cael effaith ar allu claf i dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Data 2018 / 2019:**

**Cafodd 53 o bolisïau eu llunio neu eu diwygio, ac o'r rhain, archwiliwyd 100 y cant am effeithiau ar y Gymraeg, ac roedd pump ohonynt (9 y cant) yn cynnwys cyfeiriadau at ddefnydd o'r Gymraeg**

### **Data 2017 / 2018:**

**Cafodd 43 o bolisïau eu llunio neu eu diwygio, ac o'r rhain, archwiliwyd 100 y cant am effeithiau ar y Gymraeg, ac roedd chwech o'r rhain (14 y cant) yn cynnwys cyfeiriadau at ddefnydd o'r Gymraeg**

- ***Enghraifft o asesiad a ystyrir i gael effaith ar ddefnydd o'r Gymraeg a manylion am sut y diwygiwyd y polisi o ganlyniad***

Mae gweithdrefnau asesu effeithiau polisi'r Bwrdd Iechyd yn galluogi ystyried sut bydd rhai polisïau a gweithdrefnau'n effeithio ar ddarpariaeth o'r Gymraeg. Mae un enghraifft yn cynnwys Gweithdrefn Trosglwyddo Cleifion y Bwrdd Iechyd, sydd wedi'u diwygio'n ddiweddar i gynnwys cyfeiriad at Safonau'r Gymraeg yn unol â'r *Safonau Llunio Polisi*:

### **Y Gymraeg**

*Yn unol â Safonau Cymraeg y Bwrdd Iechyd, dylid nodi dewis iaith y claf cyn gynted â phosibl gan gynnwys y wybodaeth hon yn nodiadau trosglwyddo'r claf er mwyn sicrhau bod modd diwallu ei anghenion. Dylid gwneud nodyn yn y cofnod gofal iechyd hefyd. Mae gofal ac iaith yn mynd law yn llaw a gellir peryglu ansawdd gofal drwy fethu a chyfathrebu â phobl yn eu hiaith gyntaf.*

Gweler isod enghraifft o sut mae asesiad cadarn o effaith polisi'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei ymgorffori i'r *Weithdrefn Trosglwyddo Cleifion*.

### **Eitem 1 - [Gweithdrefn Trosglwyddo Cleifion](#)**

Enghraifft arall yw *Gweithdrefn y Rheolwyr Ysbyty Cyswllt*. Pwrpas y weithdrefn hon yw sicrhau y bydd y rheiny a benodir gan y Bwrdd Iechyd fel Rheolwyr Ysbyty Cyswllt yn ennill galluoedd priodol ac yn gweithredu'n gyfreithlon yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yng Nghod Ymarfer 2016 y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Mae cyfeiriadau at y Gymraeg yn cynnwys -

*'Bydd Rheolwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn sicrhau bod gweithgareddau o ddydd i ddydd mewn perthynas â threfnu paneli'n effeithlon a bod gwrandawiadau'n cael eu dosbarthu'n deg, bod gwrandawiadau'n cael eu hwyluso yn newis iaith y claf a bod digon o Reolwyr Ysbyty Cyswllt ar gael sy'n medru'r Gymraeg.'*

*'Caiff pob ymdrech ei wneud i recriwtio Rheolwyr Ysbyty Cyswllt o gefndir ethnig amrywiol er mwyn adlewyrchu'r boblogaeth leol. Yn ogystal, caiff digon o Reolwyr Ysbyty Cyswllt eu recriwtio er mwyn darparu siaradwyr Cymraeg ar gyfer paneli.'*

### **Eitem 2 - [Gweithdrefn Rheolwyr Ysbyty Cyswllt](#)**

Cafodd Gweithgor Polisi ei sefydlu ym mis Gorffennaf 2017 at ddiben adolygu'r trefniadau cyffredinol yn y Bwrdd Iechyd at ddiben creu, rhaeadru, cyrchu a storio polisiau, dogfennau arweiniad, protocolau a dulliau gweithredu safonol, ac i gynnig a gweithredu gwelliannau ar draws y Bwrdd Iechyd er mwyn cynorthwyo trefniadau diogelwch cleifion yn y pen draw. Caiff ei gadeirio gan Ddirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd ac mae'r aelodau'n cynnwys Pennaeth Trawsnewid Gofal Nyrsio, Pennaeth Gwybodeg, Arweinydd Perfformiad a Gwelliant, Swyddog Cyfryngau Digidol yn ogystal â Swyddog Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn gyfle i Dîm y Gymraeg graffu'n fanylach ar bolisiau am gyfleoedd i gynnwys gofynion o ran y Gymraeg.

## **Gwasanaethau a Ddarperir gan Eraill**

- ***Niferoedd a chanrannau cytundebau trydydd parti sy'n cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y Cynllun Iaith.***

**Data 2018 / 2019:**

***Yn aros am ddata.***

**Data 2017 / 2018:**

**Nifer: 290 o adolygiadau contract (mae hyn yn gymysgedd o adolygiadau contract ffurfiol, ymweliadau safle a gwiriadau blynyddol diwydrwydd dyladwy / ffurflenni hunan asesu)**

**Canran: 61 y cant (o 470 o gontractau gofal iechyd ac eithrio cyrff cyhoeddus Cymru sy'n adrodd ar wahân i'r Comisiynydd)**

- ***Enghraifft o waith monitro yr ymgwymerwyd â nhw i asesu a yw cytundeb trydydd parti yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y Cynllun Iaith a manylion unrhyw weithredu a wnaed o ganlyniad i'r gwaith monitro.***

Mae'r rhan fwyaf o achosion ffurfiol o fonitro Cydymffurfiaeth â'r Gymraeg yn dangos bod darparwyr annibynnol yn gweithio'n unol â'r gofynion sydd wedi'u hymgorffori i'r contract, ac nad ydynt wedi arwain at unrhyw gamau pellach.

Fel rhan o'n cyfundrefn monitro, nid oes gennym gwestiynau penodol am Gydymffurfio â'r Gymraeg, ond bydd Tîm Contractio Gofal Iechyd yn sylwi ar wendidau wrth fesur cydymffurfiaeth mewn meysydd eraill.

***Yn aros am ragor o wybodaeth.***

## **Cynllunio'r Gweithlu**

- ***Diweddariad ar gynnydd a wnaed i fabwysiadu/gweithredu strategaeth Cymraeg/dwyieithog y sefydliad.***

Mae'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog wedi'i chynllunio i alluogi cynllunio gweithlu effeithiol a recriwtio staff i sicrhau cyflawni gwasanaethau dwyieithog drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â dewis unigolion ac anghenion y boblogaeth yn yr ardal. Y weledigaeth yw darparu gwasanaeth sy'n bodloni anghenion siaradwyr Cymraeg a'u teuluoedd neu eu gofalwyr, trwy sicrhau eu bod yn gallu derbyn gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain trwy gydol y broses gofal. Er mwyn gweithredu hyn, mae gan y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog bedair prif ffrwd waith i gefnogi'r amcan o sicrhau bod sgiliau Cymraeg addas ar gael o fewn y gweithlu i ddarparu gwasanaeth dwyieithog:

- Archwilio sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol
- Asesu anghenion gwasanaeth Cymraeg/dwyieithog
- Dynodi bylchau mewn sgiliau
- Cynllunio'r gweithlu a recriwtio

Mae gwaith yn parhau i gynyddu'r data a ddelir am allu staff yn y Gymraeg. Mae data cydymffurfio wedi'i gynnwys yn yr adroddiad Ansawdd a Pherfformiad integredig i'r Bwrdd, ac mae targed am gynydd o 2% fesul chwarter. Mae hyn wedi sicrhau dilyniant yn ystod y flwyddyn adrodd, ac adlewyrchir hyn yn y ffigurau mwy a amlinellir isod.

Gwnaed y penderfyniad hefyd i hysbysebu'r swyddi canlynol gyda'r gallu i siarad Cymraeg yn ofyniad hanfodol:

- Derbynyddion
- Switsfwrdd / Canolfannau Galwadau
- Canolfannau Trefnu Apwyntiadau Cleifion
- Clercod wardiau

#### Data 2018 / 2019:

**Roedd 88.5 y cant o'r gweithlu cyfan wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR**

#### Data 2017 / 2018:

**Roedd 83.77 y cant o'r gweithlu cyfan wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR**

- ***Nifer a chanran gweithwyr y sefydliad:***
  - ***y mae eu sgiliau Cymraeg wedi'u hasesu;***
  - ***sydd â sgiliau Cymraeg (fesul lefel sgiliau)***

#### ***Ar draws y sefydliad***

Cyfrif Nifer y Gweithwyr	2016/17		2017/18		2018/19	
Lefel Gallu Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	5785	32.41	7165	38.57	7954	43
1 - Entry/ Mynediad	2134	11.96	2336	12.57	2366	13
2 - Foundation / Sylfaen	1081	6.06	1171	6.30	1185	6
3 - Intermediate / Canolradd	1104	6.18	1203	6.48	1243	6.5
4 - Higher / Uwch	1558	8.73	1546	8.32	1502	8

5 - Proficiency / Hyfedredd	1896	10.62	2141	11.53	2217	12
Cyfanswm	13,558	75.96%	15,562	83.77%	16,467	88.5%
Cyfanswm y staff	17,850		18,577		18,624	

- ***Nifer a chanran y gweithwyr sy'n gweithio yn y gwasanaethau grŵp blaenoriaeth canlynol, y mae eu sgiliau Cymraeg wedi cael eu hasesu, fesul lefel sgil:***

- Paediatreg
- Nyrsio ysgol
- Ymwelwyr iechyd
- Meddygaeth gofal yr henoed
- Therapi iaith a Lleferydd
- Anableddau Dysgu
- Gwasanaethau iechyd meddwl:
  - Plant a Phobl Ifanc
  - Oedolion
  - Cymuned
  - Pobl Hŷn

<b>Paediatreg</b>				
Cyfrif Nifer y Gweithwyr	2017/18		2018/19	
Lefel Gallu Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	211	34.70	230	40
1 - Entry/ Mynediad	85	13.98	69	12
2 - Foundation / Sylfaen	32	5.26	33	6
3 - Intermediate / Canolradd	27	4.44	36	6
4 - Higher / Uwch	34	5.59	32	6
5 - Proficiency / Hyfedredd	88	14.47	85	15
Cyfanswm	477	78.79%	485	85%
Cyfanswm y staff	608		571	
<b>Nyrsys Ysgol</b>				
Cyfrif Nifer y Gweithwyr	2017/18		2018/19	
Lefel Gallu Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	49	33.56	54	41
1 - Entry/ Mynediad	11	7.53	22	17
2 - Foundation / Sylfaen	3	2.05	2	2
3 - Intermediate / Canolradd	5	3.42	4	3
4 - Higher / Uwch	28	19.18	17	13
5 - Proficiency / Hyfedredd	30	20.55	26	20
Cyfanswm	126	86.29%	123	92.5%
Cyfanswm y staff	146		133	

<b>Ymwelwyr Iechyd</b>				
Cyfrif Nifer y Gweithwyr	2017/18		2018/19	

Lefel Gallu Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	93	31.85	105	34
1 - Entry/ Mynediad	40	13.70	47	15
2 - Foundation / Sylfaen	18	6.16	20	6
3 - Intermediate / Canolradd	19	6.51	24	8
4 - Higher / Uwch	34	11.64	36	12
5 - Proficiency / Hyfedredd	41	14.04	48	16
<b>Cyfanswm</b>	<b>245</b>	<b>83.9%</b>	<b>280</b>	<b>91%</b>
<b>Cyfanswm y staff</b>	<b>292</b>		<b>308</b>	

<b>Meddygaeth Gofal yr Henoed</b>				
Cyfrif Nifer y Gweithwyr	2017/18		2018/19	
Lefel Gallu Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	99	23.91	74	30.5
1 - Entry/ Mynediad	49	11.84	23	9
2 - Foundation / Sylfaen	32	7.73	19	8
3 - Intermediate / Canolradd	39	9.42	14	6
4 - Higher / Uwch	81	19.57	44	18
5 - Proficiency / Hyfedredd	49	11.84	31	13
<b>Cyfanswm</b>	<b>349</b>	<b>84.31%</b>	<b>205</b>	<b>84.5%</b>
<b>Cyfanswm y staff</b>	<b>414</b>		<b>243</b>	

<b>Therapi Iaith a Lleferydd</b>				
Cyfrif Nifer y Gweithwyr	2017/18		2018/19	
Lefel Gallu Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	58	37.66	66	40
1 - Entry/ Mynediad	18	11.69	15	9
2 - Foundation / Sylfaen	7	4.55	7	4
3 - Intermediate / Canolradd	14	9.09	19	11
4 - Higher / Uwch	23	14.94	22	13
5 - Proficiency / Hyfedredd	30	19.48	36	22
<b>Cyfanswm</b>	<b>150</b>	<b>97.41%</b>	<b>165</b>	<b>99%</b>
<b>Cyfanswm y staff</b>	<b>154</b>		<b>166</b>	

<b>Anableddau Dysgu</b>				
Cyfrif Nifer y Gweithwyr	2017/18		2018/19	
Lefel Gallu Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	97	30.5	126	33.5
1 - Entry/ Mynediad	62	19.5	66	17.5
2 - Foundation / Sylfaen	29	9.12	39	10
3 - Intermediate / Canolradd	25	7.86	36	10
4 - Higher / Uwch	30	9.43	47	13
5 - Proficiency / Hyfedredd	54	16.98	54	14
<b>Cyfanswm</b>	<b>297</b>	<b>93.39%</b>	<b>368</b>	<b>98%</b>
<b>Cyfanswm y staff</b>	<b>318</b>		<b>376</b>	

<b>Gwasanaethau Iechyd Meddwl - cyffredinol</b>
---

Cyfrif Nifer y Gweithwyr	2017/18		2018/19	
Lefel Gallu Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	718	36.90	784	40
1 - Entry/ Mynediad	289	14.85	307	16
2 - Foundation / Sylfaen	157	8.07	153	8
3 - Intermediate / Canolradd	183	9.40	190	10
4 - Higher / Uwch	166	8.53	156	8
5 - Proficiency / Hyfedredd	227	11.66	234	12
Cyfanswm	1740	89.41%	1824	94%
Cyfanswm y staff	1946		1946	

<b>Gwasanaethau Iechyd Meddwl - CAMHS</b>		
Cyfrif Nifer y Gweithwyr	2018/19	
Lefel Gallu Unigol	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	117	51
1 - Entry/ Mynediad	30	13
2 - Foundation / Sylfaen	16	7
3 - Intermediate / Canolradd	14	6
4 - Higher / Uwch	10	4
5 - Proficiency / Hyfedredd	15	7
Cyfanswm	202	88%
Cyfanswm y staff	230	

<b>Gwasanaethau Iechyd Meddwl - Cymuned</b>				
Cyfrif Nifer y Gweithwyr	2017/18		2018/19	
Lefel Gallu Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	76	34.86	158	38
1 - Entry/ Mynediad	35	16.06	79	19
2 - Foundation / Sylfaen	13	5.96	32	8
3 - Intermediate / Canolradd	24	11.01	45	11
4 - Higher / Uwch	17	7.80	22	5
5 - Proficiency / Hyfedredd	32	14.68	55	13
Cyfanswm	197	90.36%	391	94%
Cyfanswm y staff	218		418	

<b>Gwasanaethau Iechyd Meddwl - Oedolion</b>				
Cyfrif Nifer y Gweithwyr	2017/18		2018/19	
Lefel Gallu Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	251	36.43	233	43
1 - Entry/ Mynediad	96	13.93	66	12
2 - Foundation / Sylfaen	60	8.71	47	9
3 - Intermediate / Canolradd	72	10.45	57	10
4 - Higher / Uwch	45	6.53	33	6
5 - Proficiency / Hyfedredd	89	12.92	85	16
Cyfanswm	613	88.97%	521	96%
Cyfanswm y staff	689		543	

<b>Gwasanaethau Iechyd Meddwl - Henoed</b>				
Cyfrif Nifer y Gweithwyr	2017/18		2018/19	
Lefel Gallu Unigol	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
0 - No Skills / Dim Sgiliau	95	37.70	91	40
1 - Entry/ Mynediad	39	15.48	46	20
2 - Foundation / Sylfaen	13	5.16	10	4
3 - Intermediate / Canolradd	21	8.33	22	10
4 - Higher / Uwch	19	7.54	20	9
5 - Proficiency / Hyfedredd	25	9.92	24	11
Cyfanswm	212	84.13%	213	94
Cyfanswm y staff	252		226	

## Hyfforddiant i Wella Sgiliau Cymraeg

Fel yr amlinellwyd eisoes yn yr adroddiad, rydym wedi gweld cryn gynydd o ran darpariaeth hyfforddiant Cymraeg yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r data canlynol yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer y staff sy'n manteisio ar hyfforddiant, gan adlewyrchu canlyniadau cadarnhaol y rôl arloesol hon yn y sector iechyd.

### Hyfforddiant wedi'i gynnig trwy Raglen Fewnol y Bwrdd Iechyd

Cyrsiau	Lleoliad	Nifer
0-5 o Gyrsiau Sgiliau Cymraeg yn cynnwys Cyrsiau Ôl-raddedig ac Israddedig	Ysbyty Gwynedd	104
Tystysgrif Sgiliau Iaith - Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Ysbyty Gwynedd	10
Cwrs Therapi Galwedigaethol	Ysbyty Gwynedd	6
0-5 o Gyrsiau Sgiliau Iaith	Ysbyty Glan Clwyd	32
0-5 o Gyrsiau Sgiliau Iaith	Ysbyty Maelor Wrecsam	38
Cwrs Iaith a Lleferydd	Ysbyty Maelor Wrecsam	15
<b>Cyfanswm y staff</b>		<b>205</b>

### Hyfforddiant wedi'i roi ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Cyrsiau	Wedi'u cofrestru	Wedi'u cwblhau
Cyrsiau Ar-lein	516	87
Cyrsiau Cymraeg Dwys, pedair awr yr wythnos am 11 wythnos.	35	35

Cyrsiau Preswyl yn Nant Gwrtheyrn.	81	81
<b><u>Cyfanswm:</u></b>	<b><u>632</u></b>	<b><u>203</u></b>

- ***Niferoedd a chanrannau gweithlu'r sefydliad a dderbyniodd hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg at lefel cymhwyster penodol***

**Data 2018 / 2019:**

**Nifer gweithlu'r sefydliad a dderbyniodd hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg at lefel cymhwyster penodol: 384082.**

**Mae'r cyfanswm hwn gywerth â 43.8 y cant o weithlu cyfredol y Bwrdd Iechyd.**

**Data 2017 / 2018:**

**Nifer gweithlu'r sefydliad a dderbyniodd hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg at lefel cymhwyster penodol: 159928**

**Mae'r cyfanswm hwn gywerth â 43.8 y cant o weithlu cyfredol y Bwrdd Iechyd.**

Mae cynnydd o 4.6 y cant ers cyflwyno Rhaglen Hyfforddiant Cymraeg y Bwrdd Iechyd pan wnaeth dim ond 90 o aelodau staff gyrchu hyfforddiant yn ystod 2016 / 2017.

## Recriwtio

- ***Nifer a chanran y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn gofyn am:***

**Data 2018 / 2019:**

- Sgiliau Cymraeg yn hanfodol - 59 (2 y cant)
- Sgiliau Cymraeg yn ddymunol - 2790 (98 y cant)
- Dim angen sgiliau Cymraeg - N/A

#### Data 2017 / 2018:

- Sgiliau Cymraeg yn hanfodol - 53 (1.9 y cant)
- Sgiliau Cymraeg yn ddymunol - 2845 (98.3 y cant)
- Dim angen sgiliau Cymraeg - N/A
- 

- **Enghraifft o asesiad sy'n dangos sut y gwnaed penderfyniad i hysbysebu swydd :**

- Sgiliau Cymraeg yn hanfodol;
- Sgiliau Cymraeg yn ddymunol;
- Dim angen sgiliau Cymraeg

Mae gofynion sgiliau Cymraeg yn parhau i gael eu hasesu fel rhan o ffurflen gais am swyddi gwag y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cynorthwyo rheolwyr i benderfynu a ddylid hysbysebu swyddi fel rhai Cymraeg yn Hanfodol neu Ddymunol. Mae'r offer yn sicrhau bod rheolwyr recriwtio yn dilyn fformiwla osodedig, gan edrych ar anghenion ieithyddol y boblogaeth, cymysgedd sgiliau cyfredol a bylchau mewn sgiliau o fewn y tîm. Mae hyn yn galluogi gwasanaethau i sicrhau bod unigolion â'r lefel ofynnol o allu yn y Gymraeg yn cael eu recriwtio, er mwyn sicrhau bod gwasanaeth dwyieithog cynhwysfawr ar gael.

Dilynwch y ddolen at enghraifft o asesiad yr ymgwymerwyd ag ef a ddangosodd fod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd:

#### **Eitem 3 - [Asesiad Derbynnnydd / Swyddog Clercyddol](#)**

Dilynwch y ddolen at enghraifft o asesiad yr ymgwymerwyd ag ef a ddangosodd fod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol i swydd:

#### **Eitem 4 - [Clerc Cofnodion Iechyd](#)**

Mae'n rhaid nodi'r Gymraeg fel sgil hanfodol neu ddymunol ar bob swydd a hysbysebwr. Ymgwymerodd y Bwrdd Iechyd â'r penderfyniad arloesol i sicrhau nad oedd dim un swydd yn cael ei hysbysebu yn nodi nad oedd angen sgiliau Cymraeg.

Mae adran newydd ar 'Ofynion o ran y Gymraeg' wedi cael ei chynnwys yn y Fanyleb Bersonol, sy'n sicrhau bod sgiliau Cymraeg, boed yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer swydd, yn cael eu nodi'n amlwg.

- ***O'r swyddi a hysbysebwyd gyda gofyniad hanfodol, y nifer a chanran y swyddi a lenwyd gan unigolion a gyflawnodd y gofyniad:***

#### Data 2018 / 2019:

*\* Gyda'r cyfleuster adrodd presennol, ni all sefydliadau gymathu'r swyddi a hysbysebhir fel rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol â sgiliau ymgeiswyr sy'n cael eu penodi iddynt. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y maes yma fel un sy'n peri pryder, ac felly, bydd hyn yn bosibl yn y dyfodol pan fydd System Recriwtio Trac yn creu'r adroddiad addasadwy.*

#### **Data 2017 / 2018:**

##### **Sgiliau Cymraeg yn hanfodol;**

- **Nid oedd modd recriwtio i 21 o swyddi**
- **Cafodd 26 o unigolion gynigion swyddi**
- **Tynnwyd 1 swydd yn ôl gan Bartneriaeth Cydwasaethau Gogledd Cymru**
- **Roedd modd adrodd ar 23 ohonynt (h.y. heb fod yn cyrraedd cam ymgeisydd)**
- **Mae data yn achos tri o'r rhain eto i ddod i law**
- **Penodwyd i bum swydd heb siaradwyr Cymraeg (nad oedd dim un o'r rhain yn Swyddi Gweinyddol a Chlercyddol PBC), ond o'r pum swydd, roedd gan un sgiliau Cymraeg Lefel 1 ac roedd gan ddau sgiliau Cymraeg ar Lefel 2.**

## **Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith**

- ***Nifer a chanran staff newydd y sefydliad (h.y. newydd ers 1 Ebrill 2017) a dderbyniodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith***

Mae Rhaglen Gynefino'r Bwrdd Iechyd yn orfodol i'r holl aelodau staff newydd, gyda sesiwn benodol ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn cael ei chyflwyno gan aelodau o Dîm y Gymraeg. Mae'r sesiynau wedi'u strwythuro i ddarparu gwybodaeth am ofynion deddfwriaethol a'r 'Cynnig Rhagweithiol' gyda thystiolaeth ac arferion gorau yn cael eu hamlygu i arddangos y camau strategol ac ymarferol yr ymgwymerir â nhw i sicrhau ymwybyddiaeth sefydliad cyfan o bwysigrwydd gwasanaethau gofal iechyd dwyieithog.

#### **Data 2018 / 2019:**

**Mae 2778 aelod newydd o staff wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.**

**Mae'r cyfanswm hwn gywerth â 100 y cant o weithlu newydd y Bwrdd Iechyd**

**Data 2017 / 2018:**

**Mae 1307 aelod newydd o staff wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg**

**Mae'r cyfanswm hwn gywerth â 100 y cant o weithlu newydd y Bwrdd lechyd**

Ochr yn ochr â'r sesiynau hyfforddiant cynefino rheolaidd hyn, mae aelodau Tîm y Gymraeg hefyd yn cynnig sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer grwpiau penodol o staff y Bwrdd lechyd. Caiff sesiynau penodol eu cynnig yn gyfnodol i fyfyrwyr meddygol o Brifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe fel rhan o'u hyfforddiant cynefino ar ddechrau lleoliadau gwaith yn y Bwrdd lechyd. Cafodd saith sesiwn eu cynnig yng Nghanolfan yr Ôl-raddedigion Ysgol Glinigol Gogledd Cymru yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod 2018-19, a bu cyfanswm o dros 100 o fyfyrwyr yn bresennol.

Mae sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg hefyd yn cael eu cynnig fel rhan o raglen gynefino'r Bwrdd lechyd ar gyfer myfyrwyr nyrsio yn eu blwyddyn gyntaf. Cafodd pedwar digwyddiad eu cynnal yn ystod 2018-19, dau yn Wrecsam a dau ym Mangor, a bu 60 a 80 o fyfyrwyr, y naill ar ôl y llall, yn bresennol yn y sesiynau. Mae nifer o grwpiau / adrannau staff penodol yn y Bwrdd lechyd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi'i deilwra'n benodol dros y 12 mis diwethaf.

Ar ôl i Brif Adran Cleifion Allanol Ysbyty Maelor Wrecsam gael ei harolygu fel rhan o Gynllun Monitro Gwasanaethau Dwyieithog parhaus y Bwrdd lechyd, cafodd sesiynau diweddarau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg eu cynnig i'r staff. Bu nifer fawr yn bresennol yn y sesiynau hyn lle cawsant groeso gwresog ac maent wedi cyfrannu at wella darparu gwasanaethau dwyieithog ymhellach yn yr adran dros y misoedd diwethaf.

Cafodd cyfres debyg o dair sesiwn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg eu cynnal hefyd ar gyfer y Gwasanaeth Ymddaliad a Symudedd ym Mryn-y-Neuadd ac yn Wrecsam yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2018, a chafodd sesiynau un-tro eu cynnal hefyd ar gyfer staff ym Meddygfa Rysseldene, Bae Colwyn ac ar gyfer yr holl Ymwelwyr lechyd a Nyrsys Ysgol yn Ardal y Gorllewin.

- ***Nifer a chanran gweithlu cyfan y sefydliad a dderbyniodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ers cyflwyno'r hyfforddiant***

Cyflwynwyd yr hyfforddiant wrth sefydlu Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn 2009.

**Data 2018 / 2019:**

**Nifer gweithlu cyfan y sefydliad a dderbyniodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ers cyflwyno'r hyfforddiant: 12, 502**

**Mae'r cyfanswm hwn gywerth â 75.9 y cant o weithlu cyfredol y Bwrdd lechyd**

**Data 2017 / 2018:**

**Nifer gweithlu cyfan y sefydliad a dderbyniodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ers cyflwyno'r hyfforddiant: 9384**

**Mae'r cyfanswm hwn gywerth â 50.5 y cant o weithlu cyfredol y Bwrdd lechyd**

## Gwefan

- ***Canran gwefan y sefydliad sydd ar gael yn Gymraeg***

Gwnaeth ein harchwiliad diwethaf ddangos bod rhyw 97 y cant o'n gwefan ar gael yn Gymraeg. Nid oes angen i'r defnyddiwr chwilio am yr wybodaeth yn Gymraeg, mae ar gael yn rhagweithiol ac mae'n cynnwys dros 1000 o dudalennau.

Rydym wrthi'n datblygu gwefan newydd ar gyfer y Bwrdd lechyd gan ddefnyddio system rheoli cynnwys newydd o'r enw Mura sydd wedi cael ei datblygu gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS). Gan ein bod yn dechrau ar y gwaith o'r cychwyn cyntaf trwy'r system newydd hon, gallwn sicrhau bod gan bob tudalen fersiwn gyfatebol yn y Gymraeg. Rydym yn adolygu'r holl gynnwys a thudalennau ar y wefan bresennol cyn iddynt gael eu trosglwyddo i'r wefan newydd.

Mae system newydd Mura yn cynnwys offer archwilio uwch er mwyn i weinyddwyr fonitro gweithgarwch tudalennau gan Olygyddion Dethol, gan gynnwys rhybuddion a hysbysiadau pan fydd tudalen newydd wedi'i chreu a'i golygu. Gyda'r system hon, byddwn yn gallu sicrhau yn y dyfodol bod fersiwn Gymraeg gyfatebol ar gael cyn i'r tudalennau fynd yn weithredol ar y wefan. Rydym yn anelu at lansio 'fersiwn feddal' o'r wefan newydd erbyn diwedd Mehefin 2019.

Bydd y wefan:

- yn cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr mewn ffordd ragweithiol o ddechrau eu hymweliad
- yn darparu dewis iaith glir ar bob tudalen
- yn caniatáu i dudalennau Cymraeg a Saesneg fod o'r un ansawdd
- yn cynnig modd o chwilio sy'n gweithio yn Gymraeg a Saesneg

Gall defnyddwyr chwilio yn Gymraeg neu yn Saesneg a dychwelir y canlyniadau yn yr iaith rhyngwyneb bresennol a ddefnyddir ar y pryd. Nid yw'r canlyniadau chwilio yn hysbysu'r defnyddiwr a oes canlyniadau pellach ar gael mewn ieithoedd eraill.

Mae rhyngwyneb y wefan yn union yr un fath yn y ddwy iaith. Mae'r gosodiad o'r un ansawdd mewn perthynas â lliw, maint, ffont a fformat y testun.

- ***Gwybodaeth am y broses a ddefnyddir i sicrhau bod y cynnwys presennol, diweddariadau a chynnwys newydd yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd***

Mae'r Tîm Cyfathrebu a Thîm y Gymraeg wedi bod yn monitro'r tudalennau gwe presennol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol a'i bod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae Tîm Cyfathrebu'n gyfrifol am lwytho, golygu ac adolygu cynnwys gwefan y Bwrdd Iechyd, ond oherwydd maint sylweddol y sefydliad, mae'r gorchwyl o olygu'r wefan wedi cael ei ddirprwyo i graidd o ryw 20 golygydd gwefan dethol o adrannau amrywiol. Fel rhan o'r broses o ailddatblygu'r wefan newydd, bydd pob golygydd dethol newydd yn cael hyfforddiant o'r cychwyn cyntaf i ddefnyddio system rheoli cynnwys newydd 'Mura'. Yn ystod yr hyfforddiant hwn, bydd y Tîm Cyfathrebu'n sicrhau eu bod yn deall y canllawiau ar gyhoeddi tudalennau gwe dwyieithog a bydd hyn yn elfen hanfodol o ran yr hyfforddiant hwn. Byddant hefyd yn cael gwybod na chaiff unrhyw gynnwys neu dudalennau a gyflwynir yn Saesneg yn unig eu cymeradwyo hyd nes bod y cyfan wedi cael ei gyfieithu. Bydd golygyddion yn derbyn cyfarwyddyd i beidio cyhoeddi cynnwys diwygiedig neu newydd ar y wefan hyd nes iddo fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, er mwyn sicrhau cysondeb y tudalennau yn y ddwy iaith.

Pan fydd testun ar gael i'r golygyddion mewn un iaith, mae'n rhaid iddynt drefnu cyfieithiad i'r iaith arall. Sefydlwyd proses lle bydd golygydd gwe dethol yn anfon cais i Wasanaeth Cyfieithu'r Bwrdd Iechyd i baratoi'r testun yn yr iaith arall. Dychwelir y testun wedi'i gyfieithu i'r golygydd dethol i'w osod ar y dudalen newydd ac yna bydd y tudalennau cyfatebol yn Gymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd ar y wefan.

Gan ein bod wrthi'n datblygu'r wefan newydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd, caiff hyn ei roi ar waith o'r cychwyn cyntaf. Bydd gennym lai o olygyddion dethol a bydd gennym ddulliau rheoli gwell i reoli'r cynnwys presennol a hysbysiadau pan gaiff diweddariadau a chynnwys newydd eu llwytho.

## Cwynion

- ***Nifer y cwynion a gafwyd ynghylch gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg***

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd saith gŵyn mewn perthynas â rhoi ei Gynllun Iaith Gymraeg ar waith yn ystod y flwyddyn adrodd bresennol, ond aed i'r afael yn llawn â phob un o'r rhain yn unol â Rheoliadau *Gweithio i Wella*. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio bod tair o'r cwynion hyn yn gysylltiedig â gofal cychwynnol. Fel contractwyr annibynnol, y cwbl y gall y Bwrdd Iechyd ei wneud yw cefnogi ac annog darparwyr i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog. Fel y dangoswyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhagori ar ei ofynion o dan y Cynllun Iaith Gymraeg i fynd i'r afael â'r problemau sy'n codi.

O'r cwynion eraill, roedd dwy ohonynt mewn perthynas â galwadau ffôn a dderbyniwyd gan y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, ar ôl ymchwilio, daeth i'r amlwg nad oedd y ddau achlysur (o fewn gwasanaethau gwahanol) yn adlewyrchu lefel y gwasanaeth Cymraeg a gynigir gan y gwasanaethau fel arfer ac ar ôl cyflwyno tystiolaeth, roedd yn amlwg bod digon o siaradwyr Cymraeg yn y tîm.

Ni chynhaliwyd yr un ymchwiliad allanol yn ystod y flwyddyn adrodd.

## Casgliad a Blaen Weledigaeth ar gyfer 2019 - 2020

Trwy ei gynllunio strategol, mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth glir ar gyfer y tair blynedd nesaf gyda ffocws allweddol ar ddatblygu'r meysydd gwasanaeth canlynol ymhellach:

- Cyflwyno Safonau'r Gymraeg ar draws y sefydliad
- Cynllunio'r gweithlu drwy roi'r *Strategaeth Sgiliau Dwyieithog* ar waith
- Hybu a gweithredu egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol' yn unol â Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru *Mwy na Geiriau*
- Datblygu gwasanaethau gofal cychwynnol dwyieithog a'u cryfhau
- Darparu gwasanaeth cyfieithu cynhwysfawr i'r sefydliad cyfan

Bydd y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar roi ei lwyddiannau ar led o ran gwireddu'r addewidion uchod ar lefel weithredol, a bydd gwaith y Grŵp Rheoli Prosiect yn bwysicach nag erioed wrth i ni nesáu at y dirwedd ddeddfwriaeth newydd.

Bydd gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn ganolbwynt i'r Bwrdd Iechyd ac mae cysylltiadau eisoes wedi'u rhoi ar waith i ddatblygu prosiect *Cymraeg i Blant* sy'n ategu at strategaeth iaith Llywodraeth Cymru, sef *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*. Byddwn yn gweld datblygiadau pellach gyda phartneriaid wrth i ni gefnogi gweithio integredig ehangach gydag awdurdodau lleol. Bydd hyn yn drywydd allweddol ar gyfer y dyfodol a bydd yn gofyn am ymagwedd gydgyssylltiedig tuag at roi'r camau newydd a nodir ar waith o ran gofal, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fel rhan o *Mwy na Geiriau*.

Ar ôl canfod yr angen i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc o'r Gymraeg fel sgil cyflogaeth, ac ar ôl gweld llwyddiant ein hymweliadau ag ysgolion a cholegau lleol, bydd y Bwrdd Iechyd yn ehangu ar waith a wneir eleni trwy ymgysylltu'n ehangach ag ysgolion uwchradd Cymraeg a Saesneg.

Mae gwaith wedi parhau gyda'r sector gofal cychwynnol fel y dengys yr adroddiad hwn, a chaiff y gwaith hwn ei ddatblygu ymhellach fel rhan o'r Safonau a dyletswyddau arfaethedig ar gontractwyr.

Byddwn hefyd yn gweithio ar brosiect gyda'n Uwch Adran Iechyd Meddwl i gynnal ymarfer cwmpasu o'n darpariaeth bresennol a thrwy ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, byddwn yn cydweithio i ganfod meysydd a'r math o gymorth sydd eu hangen. Mae'r camau hyn yn llywio cynlluniau ehangach y Bwrdd Iechyd a byddant yn rhan o raglen waith, monitro a llywodraethu parhaus.

Adroddiad terfynol y Bwrdd Iechyd yw hwn ar weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg. Wedi adolygu'r adroddiadau blynyddol a gyflwynwyd ers sefydlu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn 2009, mae'r cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod hwn wedi bod yn sylweddol.

Rydym wedi:-

- gwella ansawdd y gofal a gynigiwn trwy ddewis iaith
- gwella cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a statudol
- canfod mentrau sydd wedi cael eu rhoi ar waith a'u cyflwyno er mwyn ymateb i angen iaith fel elfen annatod o ofal
- gwella datblygu sefydliadol o ran sut gallwn gefnogi'r gweithlu o ran gallu cynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r llwyddiannau hyn wedi'u cydnabod ar lefel genedlaethol ac rydym ar flaen y gad o ran rhannu arfer gorau a chefnogi sefydliadau eraill yn y sector.

Rydym bellach yn awyddus i ddatblygu ein gwaith ymhellach o ran gwireddu rhwymedigaethau statudol fel bod modd i ni wella ein gwasanaethau ymhellach ar gyfer cleifion sy'n medru'r Gymraeg yn eu dewis iaith.